# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH,<br>20 IONAWR 2026 am 2.00 o'r gloch yp** | **TUESDAY,<br>20 JANUARY, 2026 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID - YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING - COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor — Mrs Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

***Y Grwp Annibynnol/The Independent Group***

Gwilym O Jones ***(Is-gadeirydd/Vice-Chair)***

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees (**Cadeirydd/Chair**), Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Douglas Fowlie, Derek Owen, Liz Wood

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters) Mrs Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Kathryn Seeney -(Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector), Christina Williams-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church) Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights) Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)**

*Nodwch os gwelwch yn dda bod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor.  Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 24)

Cyflwno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

**4** **DIOGELU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 25 - 122)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**5** **BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN** (Tudalennau 123 - 138)

**6** **BLAEN RAGLEN WAITH 2025/2026** (Tudalennau 139 - 146)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd yn y Gadair)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, Euryn Morris, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams a Liz Wood (gadawodd y cyfarfod am 10.45 am)<br><br>Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg<br><br>**Aelodau Cyfetholedig**<br><br>Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig,<br>Ms Kathryn Seeney – Rhiant-lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd,<br>Ms Christina Williams – Rhiant-lywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY. |
| **WRTH LAW:** | Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Arweinydd Strategol (Uwchradd) (ED),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Gweddarlledu (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Pip O'Neill a Dylan Rees<br><br>Prif Weithredwr<br>Y Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion,<br>Y Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid |

---

Gan fod y Cadeirydd wedi ymddiheuro na fyddai’n bresennol, yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gwilym O Jones oedd yn y Gadair.

Penodwyd y Cynghorydd Sonia Williams yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

## 2 DATGAN DIDDORDEB

Dim un datganiad wedi'i dderbyn.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2025 yn gywir, yn amodol ar welliant nad oedd y Cynghorydd Fowlie yn codi cwestiwn yng Nghyngor Cymuned Aberffraw bod Menter Môn wedi gwerthu Cegin Llys Llewelyn i ariannu'r bwlch mewn pensiynau, ond cododd Cynghorydd Sir arall y mater.

**Pwyntiau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2025:-**

**Eitem 4 – Partneriaeth Strategol – Menter Môn**

**Cam gweithredu 1** – Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd gweithio gyda Menter Môn ac Aelodau Lleol i gryfhau a ffurfioli'r broses, gan nodi meysydd gwella.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor a Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn, codwyd y mater yng nghyfarfod Arweinwyr y Grŵp wedyn.  Derbyniwyd bod angen rhannu gwybodaeth gydag Aelodau o'u Grŵp i wella dealltwriaeth o'r anghenion a'r cyfleoedd o fewn cymunedau lleol.

**Eitem 5 – Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn 2024/2025**

**Cam gweithredu 1** – Cynnwys y dangosfwrdd yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf i fesur a dangos cynnydd ac effaith prosiectau, gan gymharu'r perfformiad ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ag Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae'r Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol wedi cadarnhau y bydd y wybodaeth yn cael ei chynnwys, fel y nodwyd uchod, yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf.

**Cam gweithredu 2** – Diweddaru Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd ar 7 Tachwedd, 2025 mewn perthynas â'r gostyngiadau arfaethedig mewn gwasanaethau Therapi Galwedigaethol ledled yr Ynys oherwydd cyfyngiadau ariannu.

**CAMAU AR Y GWEILL**

**Cam gweithredu 3 –** Y Prif Weithredwr i ymgysylltu â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Deiliad Portffolio perthnasol i sicrhau bod pryderon ynghylch yr effaith ar y gostyngiadau arfaethedig i Wasanaethau Galwedigaethol mewn llawer o feddygfeydd ar Ynys Môn yn cael eu hadlewyrchu yn y broses ymgynghori. **CAMAU AR Y GWEILL**

**4 CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION : FFRAMWAITH AR GYFER GWERTHUSO, GWELLA AC ATEBOLRWYDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a oedd yn amlinellu'r Canllawiau Gwella Ysgolion : fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg, gan fod GwE wedi dod i ben, mai'r Gwasanaeth Dysgu oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth cefnogi ysgolion. Mae'r pwyslais ar hunanwerthuso a gweithio â chydweithwyr ac mae gwaith eisoes wedi digwydd o fewn y Gwasanaeth Dysgu gan fod arferion da wedi'u sefydlu.

Rhoddodd yr Arweinydd Strategol (Uwchradd) gyflwyniad byr i'r cyfarfod ar y Canllawiau Gwella Strategol a fydd yn cael eu gweithredu ym mis Mawrth 2026. Nododd fod y ddogfen yn tanlinellu pwysigrwydd cydweithrediad Tîm Môn ar Ynys Môn. Nodwyd bod nodau ac amcanion y ddogfen yn :-

- Codi ymwybyddiaeth o gynnwys yr adroddiad
- Amlinellu'r disgwyliadau ar ysgolion a Chyrff Llywodraethu
- Amlinellu'r gwasanaethau, y strwythur newydd a sut i gefnogi'r ysgolion
- Cyfrifoldebau Awdurdodau Lleol

Nododd fod y Canllawiau Gwella Ysgolion drafft wedi'u cyhoeddi yn 2022, ond ar ôl terfynu'r Consortia Gwella Ysgolion cyhoeddwyd drafft wedi'i ddiweddaru yn amlinellu'r cyfrifoldebau sy'n cael eu trosglwyddo i'r Awdurdod Lleol. Nod y ddogfen a Llywodraeth Cymru yw bod ysgolion yn gweithredu fel Cymunedau Dysgu, a'u bod yn hunan-wella, sy'n arwain at lai o ddibyniaeth ar gefnogaeth ganolog. Mae clystyrau ysgolion eisoes yn gweithio gyda'i gilydd ar Ynys Môn ac mae cynlluniau cydweithredol wedi'u rhoi ar waith gyda Phenaethiaid a staff yn craffu ar ei gilydd ac yn rhoi adborth. Canolbwyntiodd yr Awdurdod Lleol ar gymorth ar gyfer ymddygiad, lles emosiynol ac iechyd meddwl, ADY, presenoldeb, adnoddau dynol, cyllid, adeiladau, datblygu'r Gymraeg a chymorth comisiynu ar gyfer addysgu a dysgu, datblygu arweinyddiaeth a chynllunio'r cwricwlwm. Amlinellwyd y disgwyliadau ar gyfer gweithredu'r adroddiad erbyn mis Mawrth 2026 i'r Pwyllgor a nodwyd bod gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud gan yr Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â'r disgwyliadau yn yr adroddiad. Y pwyslais yw bod ysgolion yn hunan-wella ac yn gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Fframwaith yn nodi bod ysgolion yn cael eu dal yn uniongyrchol atebol am ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd dysgwyr gan y Cyrff Llywodraethu ac Estyn. Mae adroddiadau Estyn ac amlder arolygiadau yn newid gydag arolygiad craidd bob 6 blynedd ynghyd ag arolygiad interim bob 3 blynedd i archwilio'r cynnydd. Bydd perthnasoedd gwaith agos rhwng ysgolion a'r Awdurdod Lleol yn darparu cefnogaeth yn seiliedig ar Gynlluniau Datblygu Ysgolion ar gyfer blaenoriaethau

gwella.  Bydd trefn effeithiol o hunanwerthuso er mwyn mesur cynnydd a gwelliannau parhaus ac i sicrhau bod ysgolion yn nodi'r blaenoriaethau cywir; mae gan Lywodraethwyr Ysgolion ran hanfodol i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu nodi.  Pwysleisiwyd atebolrwydd a rôl yr Awdurdod Lleol ynghyd â'r negeseuon allweddol i'r Pwyllgor a gynhwyswyd yn y cyflwyniad.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion canlynol :-

- Cyfeiriwyd at y ffaith y bydd mwy o gyfrifoldebau yn cael eu rhoi ar Lywodraethwyr ysgolion oherwydd y Canllawiau Gwella Ysgolion newydd. Gofynnwyd a fydd hyfforddiant ychwanegol ar gael i Lywodraethwyr ac a ydyn nhw'n ymwybodol o'r cyfrifoldeb ychwanegol y bydd ganddynt.  Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd Strategol (Uwchradd) fod rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gael i Lywodraethwyr Ysgolion.  Nododd y gallai'r Gwasanaeth Dysgu fynychu cyfarfodydd y Llywodraethwr i dynnu sylw at y disgwyliadau o fewn y Canllawiau Gwella Ysgolion.
- Gofynnwyd a oedd llais y disgyblion, y rhieni a'r gymuned wedi'i ystyried o fewn y Canllawiau.  Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd Strategol (Uwchradd) fod hyrwyddo ysgolion sy'n canolbwyntio ar gymunedau yn rhan allweddol o'r ddogfen i sicrhau bod ysgolion yn meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd a chymunedau ac yn cefnogi ac yn hyrwyddo cynhwysiant.  Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at yr angen i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a rhieni i greu perthynas. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod disgwyliad clir i'r Penaethiaid ymgysylltu â'r gymuned, rhieni a rhanddeiliaid.
- Gofynnwyd a fydd y ddarpariaeth newydd yn ddigonol i fynd i'r afael ag anghenion ysgolion ar ôl i ddarpariaeth GwE ddod i ben.  Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd Strategol (Uwchradd) fod rhai staff wedi trosglwyddo o GwE i'r Awdurdod Lleol.  Nododd y bydd staff yr Awdurdod Lleol yn parhau i ymweld ag ysgolion ac os oes angen arbenigedd ychwanegol gellir darparu'r adnodd. Mae rhaglen datblygu proffesiynol yn cael ei chynnal ar hyn o bryd.
- Gofynnwyd a fydd y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael ei hystyried pan fydd y cydweithio rhwng Gwynedd ac Ynys Môn yn dod i ben. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd y gwasanaeth newydd o dan yr Awdurdod Lleol yn cael ei sefydlu ac yn weithredol erbyn mis Medi 2026, a bydd manylion ar gael maes o law. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y ddarpariaeth ADY yn her sylweddol i'r Awdurdod Lleol a bydd cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth.   Cyfeiriwyd ymhellach at y ffaith bod Canolfan Addysg y Bont yn llawn; mae llawer o blant ag ADY ac anghenion dwys o fewn yr ysgolion prif ffrwd.  Ystyrid bod angen mynd i'r afael â'r mater ar frys. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod prosesau ar waith i leoli plant ag ADY yng Nghanolfan Addysg y Bont, ar gyfer disgyblion cymwys, fodd bynnag, mae darpariaeth ADY yn her genedlaethol.  Dywedodd Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg fod angen adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r pwysau ar Awdurdodau Lleol o ran darpariaeth ADY.  Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr y bydd angen i'r Awdurdod roi darpariaeth ar waith ar gyfer ADY cyn i'r cydweithio â Gwynedd ac Ynys Môn ddod i ben ym mis Awst 2026.   Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru yn codi materion darpariaeth ADY a gofynion cyllido.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod Cynorthwywyr Addysgu yn gorfod darparu cymorth i blentyn sydd â gofynion ADY ynghyd â phlant sydd angen cymorth a rennir mewn ysgolion. Ystyrid bod angen cyflogi Cynorthwywyr Addysgu am fwy na blwyddyn gan fod angen sefydlogrwydd ar blant ag ADY. Codwyd cwestiynau ynglŷn â sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu rhoi sylw i'r diffyg adnoddau ariannol i fynd i'r afael â'r angen i gyflogi staff ar sail fwy parhaol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cyllid yn achos pryder, a bod y mater wedi'i godi yn CLILC a gyda Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru. Dywedodd fod y Pwyllgor eisoes wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch y mater. Nododd y dylai pob disgybl gael yr un cyfle i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod nifer uchel o staff newydd wedi'u cyflogi yn y Gwasanaeth Dysgu yn ddiweddar a bod angen gwybod yn glir pwy sy'n gyfrifol am wahanol ddarpariaethau o fewn y gwasanaeth. Codwyd cwestiynau ynghylch a yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am ddarpariaeth benodol o fewn y Gwasanaeth Dysgu ac a allai diffyg eglurder effeithio ar gyfathrebu a darparu gwasanaeth. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch a fu newidiadau staff o fewn swyddi'r Swyddogion Lles yn y Gwasanaeth Dysgu gan fod angen cysondeb wrth ddelio â disgyblion. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod gwybodaeth yn cael ei rhoi i ysgolion ynglŷn â'r newidiadau o fewn y Gwasanaeth Dysgu. Nododd fod newidiadau wedi bod gyda swyddi Swyddogion Lles wrth i staff adael y gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi goblygiadau'r canllawiau cenedlaethol a'r disgwyliadau ar awdurdodau lleol wrth gyfrannu at welliant ysgolion, yn enwedig rôl sgriwtini;**
- **Nodi swyddogaethau allweddol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (fel y gwaith craffu dynodedig ar faterion addysg) i ganolbwyntio ei waith craffu (drwy'r Panel Sgriwtini Addysg) ar fesur effaith y gefnogaeth a ddarperir i ysgolion gan y Gwasanaeth Dysgu.**

## 5 ADRODDIAD CYNNYDD : PANEL SGRIWTINI ADDYSG

Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, y Cynghorydd Gwilym O Jones mai hwn yw chweched adroddiad cynnydd y Panel sy'n cynnwys cyfnod Chwefror – Hydref 2025. Nododd fod y Panel wedi cyfarfod ar dri achlysur ynghyd â gwaith maes gan yr Aelodau oedd yn mynychu ysgolion yn ystod y cyfnod hwn yn dilyn argymhellion yr Adolygiad Sgriwtini ym mis Gorffennaf 2024. Nododd fod y Panel wedi ystyried y materion canlynol:-

- Cwricwlwm yng Nghymru
- Hunanwerthuso Effaith y Panel Sgriwtini Addysg
- Pontio Effeithiol – parodrwydd i ddysgu
- Diogelu Corfforaethol – cyfraniad ysgolion
- Gwella presenoldeb

- Rhaglen Waith y Panel Sgriwtini ar gyfer y cyfnod Chwefror 2025 – Hydref2025

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion canlynol :-

- Gofynnwyd a fydd y Panel Sgriwtini Addysg yn ymgymryd â rhaglen dreigl o fynychu gwaith maes ym mhob Ysgol Gynradd ac Uwchradd ar yr Ynys. Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Panel Sgriwtini Addysg yn ymroi i waith maes yn yr ysgolion. Nodwyd mai adnoddau ariannol sydd ar gael i ysgolion yw un o'r prif faterion pan fydd y Panel yn mynychu'r ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod Aelodau'r Panel Sgriwtini Addysg eisoes yn ymweld ag ysgolion cyn argymhellion yr Adolygiad Sgriwtini. Roedd yn rhagweld y byddai'r Aelodau yn mynychu cymaint o ysgolion â phosibl maes o law. Fodd bynnag, ni fydd Aelodau yn ymweld â'r ysgolion y maent yn Llywodraethwyr arnynt fel rhan o'u gwaith. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth mai rôl y Panel Sgriwtini Addysg yw ystyried y themâu sgriwtini ac nad oes angen mynd i bob ysgol. Bydd y Panel yn adolygu samplau o'r themâu hynny wrth ymweld ag ysgol benodol.
- Cyfeiriwyd at ystadegau presenoldeb yn benodol mewn Ysgolion Uwchradd. Codwyd cwestiynau ynghylch a fyddai'r ystadegau presenoldeb yn gwella pe bai disgyblion â rhesymau h.y. problem iechyd, yn cael eu tynnu o'r ystadegau hynny. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mai ffocws y Panel Sgriwtini Addysg yw adolygu'r gwasanaeth a ddarperir i ysgolion i wella presenoldeb. Mae'r Swyddogion Lles yn gwneud gwaith i fesur y rhesymau dros absenoldebau o'r fath o'r ysgolion. Nododd ei bod yn briodol i Lywodraethwyr ofyn cwestiynau o'r fath yng Nghyfarfodydd Llywodraethwyr Ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Dysgu hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Plant a Theuluoedd i gefnogi plentyn nad yw'n gallu mynychu'r ysgol. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod rôl i ysgolion unigol amlygu a mynd i'r afael â phryderon ynghylch presenoldeb yn eu hysgolion.
- Cyfeiriwyd at y gwaith maes a wnaed gan y Panel Sgriwtini Addysg wrth fynychu ysgolion. Ystyrid y dylid rhoi cyfle i Aelodau fynychu'r ysgolion y maent yn Llywodraethwyr arnynt. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y dylai Aelodau, yn eu rôl fel Llywodraethwyr, fynychu eu hysgolion eu hunain a chymryd rhan mewn hunanwerthuso. Mae hyn yn arfer da.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod staff ysgolion yn ymgymryd â gwaith lles oherwydd tlodi yn yr ysgolion. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod mynd i'r afael â thlodi yn fater i bawb a bod angen i Lywodraethwyr Ysgolion ystyried blaenoriaethau eu hysgol i liniaru tlodi. Bydd y Gwasanaeth Dysgu yn cynnal trafodaeth gydag ysgolion i ganfod eu strategaethau i fynd i'r afael â thlodi yn y flwyddyn newydd.
- Tra bod y Panel Sgriwtini Addysg wedi craffu ar waith y Gwasanaeth Dysgu, gofynnwyd pa sicrwydd y gellir eu rhoi bod y gwasanaeth yn ystyried ac yn gweithredu ar argymhellion y Panel ar lefel ymarferol ac a fydd adroddiadau dilynol yn amlinellu'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r materion a godwyd. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd materion a godwyd gan y Panel Sgriwtini Addysg yn cael eu trafod a'u hadrodd yn ôl i'r Panel a'r Aelod Portffolio.
- Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai'n fanteisiol trefnu Sesiwn Briffio i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod diwethaf o ran gwaith y Panel Sgriwtini Addysg.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AR GYFER 2025/2026

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Sgriwtini sy'n nodi Blaenraglen Waith ddangosol y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2025/2026 i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD cytuno ar y fersiwn bresennol o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2025/2026, gan gynnwys y diwygiadau a nodwyd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**

This page is intentionally left blank

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, John Ifan Jones, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret M Roberts, Ken Taylor a Liz Wood |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Gweddarlledu (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Euryn Morris<br><br>Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo;<br>Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;<br>Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer.<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion;<br>Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol;<br>Cynghorydd Dyfed W Jones – Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd;<br>Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd;<br>Cynghorydd Ieuan Williams – Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd.<br><br>Mr Dyfed Edwards – Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (mewn perthynas ag eitem 3)<br><br>Mr Paul Andrew – Cyfarwyddwr Gweithrediadau IC (Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (mewn perthynas ag eitem 3) |

Ms Emma Wood – Prif Weithredwr a Ms Estelle Hitchon – Cyfarwyddwr Partneriaeth ac Ymgysylltu Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (mewn perthynas ag eitem 4)

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGAN DIDDORDEB**

Dim un datganiad wedi’i dderbyn.

**3 CRAFFU AR BARTNERIAETHAU STRATEGOL - BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR.**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Dyfed Edwards, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Mr Paul Andrew – Cyfarwyddwr Gweithrediadau IC (Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cyfarfod.

Rhoddodd Mr Paul Andrew gyflwyniad byr i'r Pwyllgor ar y bartneriaeth gref rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod sy’n rhannu’r yn ffocws, sef gwella iechyd, annibyniaeth a lles i drigolion Ynys Môn.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor:-

- Cyfeiriwyd at y siom yn lleol bod uned pedwar gwely Hosbis Dewi Sant yn Ysbyty Penrhos Stanley wedi cau yn ddiweddar. Codwyd cwestiynau ynghylch a fydd yr uned pedwar gwely yn cael ei throsglwyddo er mwyn darparu gwelyau ychwanegol yn yr ysbyty. Mewn ymateb, dywedodd Mr Andrew fod yr uned pedwar gwely yn darparu therapïau ac adnoddau eraill i gleifion sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Nododd fod adnodd un gwely ar gael yn yr Hosbis yn Llandudno.
- Cyfeiriwyd at wydnwch y ddwy bont ar draws Afon Menai. Codwyd cwestiynau ynghylch a oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â senario lle byddai’r ddwy bont yn cael eu cau a bod angen trosglwyddo cleifion, mewn argyfwng, i Ysbyty Gwynedd. Codwyd cwestiynau pellach gan ofyn a oes darpariaeth ar gael yn Ysbyty Cefni ac Ysbyty Penrhos Stanley ac a oes angen buddsoddi yn y ddau ysbyty hyn i ddelio â sefyllfa fel hon. Mewn ymateb, dywedodd Mr Dyfed Edwards fod y Bwrdd Iechyd wedi ymateb i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru gan dynnu sylw at y pryderon y gallai'r ddwy bont gau oherwydd gwyntoedd cryfion neu unrhyw argyfwng arall. Dywedodd fod nifer o staff y Bwrdd Iechyd yn byw ar yr Ynys ac yn gorfod croesi'r pontydd yn ôl a blaen i'r gwaith bob dydd. Nododd fod y buddsoddiad mewn darpariaethau lleol yn bwysig er mwyn i gleifion dderbyn eu triniaeth a chael eu cefnogi. Dywedodd Mr Andrew fod cynlluniau parhad busnes (Grŵp Rheoli Tactegol) ar waith pe bai'r senario yn digwydd a bod y ddwy bont ar draws Afon Menai yn cau.

- Yn ystod y cyflwyniad adroddwyd bod perthynas waith gadarn rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor hwn. Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth gan y Gweithwyr Cymdeithasol o'r Awdurdod Lleol wrth ofalu am gleifion yn Ysbyty Gwynedd. Mewn ymateb, dywedodd Mr Andrew fod newid wedi bod yn y model o weithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ers y ddwy flynedd ddiwethaf gyda Gweithwyr Cymdeithasol yn yr ysbyty. Nododd ei bod yn amlwg nad oedd angen i bob claf gael ei weld gan Weithiwr Cymdeithasol a bod gwelyau'n cael eu blocio wrth i'r claf aros i gael ei weld gan Weithiwr Cymdeithasol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod darpariaeth AmAdref ar gael gyda Gweithwyr Cymdeithasol yn gofalu am gleifion yn Ysbyty Gwynedd i drefnu'r llwybr gofal sydd ei angen ar unigolyn wrth ddychwelyd adref. Mae'r Tîm Ailalluogi hefyd yn gofalu am gleifion yn Ysbyty Gwynedd i sicrhau bod cleifion yn derbyn y pecyn gofal cywir. Dywedodd ei bod yn bwysig bod y cleifion yn ddiogel pan maent yn dychwelyd adref ac nad oes rhaid iddynt ddychwelyd i'r ysbyty. Ychwanegodd fod Dangosfwrdd Gofal wedi'i greu i hwyluso gofynion anghenion gofal unigol ac i sicrhau nad yw pobl yn aros yn yr ysbyty am fwy o amser nag sydd raid.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â gwaith y Timau Cymunedol mewn gwahanol ardaloedd o'r Ynys. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod Timau Cymunedol yn hwyluso'r llwybr gofal o fewn y cartref i gleifion, gyda'r prif ffocws ar osgoi gorfod derbyn pobl i'r ysbyty os nad yw pobl yn gallu cael eu cefnogi yn eu cartref. Codwyd cwestiynau pellach ynglŷn â'r rhwymedigaethau o derfynu'r trefniadau gyda'r Groes Goch. Mewn ymateb, dywedodd Mr Andrew fod y Bwrdd Iechyd o'r farn ei bod yn amserol i'r bwrdd ystyried gwasanaeth arall. Mae'r trefniadau ariannu'n golygu y gellir darparu oriau estynedig, ac mae darpariaeth fewnol hefyd ar gael. Nododd fod adborth cadarnhaol ar gyfer y ddarpariaeth newydd.
- Cyfeiriwyd at ddiffyg darpariaeth ddeintyddol i blant, ac nad yw rhai deintyddion yn cofrestru plant. Mewn ymateb, dywedodd Mr Andrew fod proses dendro ar gyfer darpariaeth ddeintyddol yn cael ei chynnal ar hyn o bryd gan y Bwrdd Iechyd, a'r gobaith yw y bydd canlyniad cadarnhaol yn deillio o'r broses hon.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y data a gyhoeddwyd ar gyfer amseroedd aros am driniaethau gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ohirio oherwydd nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi darparu gwybodaeth o fewn yr amserlen benodedig. Mewn ymateb, dywedodd Mr Dyfed Edwards fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud camgymeriadau wrth gyflwyno data ar gyfer amseroedd aros a bod hyn bellach wedi'i gywiro. Bydd y data yma yn cael ei gyhoeddi ar wefan y llywodraeth maes o law.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â pha fesurau fydd yn cael eu cymryd ar gyfer therapi ac asesu plant ag anghenion dysgu ychwanegol ar Ynys Môn a pha ddarpariaeth sydd ar waith i leihau amseroedd aros. Mewn ymateb, dywedodd Mr Andrew nad oedd ganddo'r wybodaeth ac y byddai'n rhaid iddo ddod yn ôl gyda'r manylion angenrheidiol.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â gwytnwch y Byrddau Iechyd wrth recriwtio yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai. Mewn ymateb, dywedodd Mr Edwards fod ansicrwydd ynglŷn â'r posibilrwydd o newid llywodraeth yn dilyn etholiadau'r Senedd. Cytunodd y dylid annog pobl ifanc i gael gyrfa o fewn y gwasanaeth iechyd, a'i bod yn bwysig bod cleifion yn gyfforddus gyda'r bobl leol sy'n gofalu amdanynt. Fodd bynnag, heb gefnogaeth gweithwyr o wahanol wledydd, dywedodd na fyddai cleifion wedi derbyn y gofal iechyd gan y GIG a dylid diolch

iddynt am eu hymrwymiad a'u gofal i gleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

- Codwyd cwestiynau ynglŷn â rhannu gwybodaeth gyda'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mewn ymateb, dywedodd Mr Andrew fod cysylltu gwybodaeth â'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn hollbwysig i hwyluso llif cleifion o'r ysbyty. Nododd fod pob un o'r chwech Awdurdod Lleol yn y gogledd-orllewin trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cytuno i rannu gwybodaeth i wella'r gwasanaethau yn lleol ar gyfer cleifion sydd angen cymorth o fewn y system gofal cymdeithasol. Mae'r Tîm Gwytnwch Cymunedol yn hollbwysig wrth ofalu am gleifion yn eu cartrefi a darparu cymorth i bobl fregus.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r strategaeth sydd yn ei lle i ddenu pobl ifanc i'r gwasanaeth iechyd a ph'un ai a oes targedau clir i ddatblygu'r gweithlu o blith pobl o Ynys Môn. Atebodd Mr Edwards fod diwrnod agored wedi'i drefnu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar a bod dros 100 o bobl yn bresennol ynddo o ardal y Gogledd-orllewin. Nododd y bydd Memo Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei lofnodi rhwng y Bwrdd Iechyd a Choleg Llandrillo Menai i gynnal hyfforddiant a chynllunio'r gweithlu ar gyfer dyfodol y Gwasanaeth Iechyd ar gyfer y 5 i 10 mlynedd nesaf. Dywedodd ymhellach ei bod yn galonogol y bydd yr Ysgol Feddygaeth a sefydlwyd ym Mhrifysgol Bangor yn darparu cenhedlaeth o weithwyr meddygol proffesiynol i'r rhanbarth.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â sut mae'r Bwrdd Iechyd am fynd i'r afael â'r amseroedd aros yn yr adran achosion brys lle mae pobl yn gorfod aros i gael eu derbyn i Wardiau ac ambiwlansys yn gorfod aros i drosglwyddo cleifion i'r adran. Atebodd Mr Edwards ei fod yn cytuno bod cleifion yn aros yn rhy hir yn yr adran achosion brys a bod angen gwell cyfleusterau ar gyfer y ddarpariaeth iechyd i bobl. Nododd y dylai pobl hefyd gael gwybod am gefnogaeth leol yn eu cymunedau i'w harbed rhag mynd i'r adran achosion brys.
- Cyfeiriwyd at adroddiad LAIS a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024 – *Getting Urgent and Health Care*. Amlinellodd y Cadeirydd bryderon cleifion mewn perthynas ag amser aros a chyfathrebu gwael â chleifion. Nododd fod y diffyg urddas hefyd yn peri pryder gyda chleifion sy'n derbyn triniaeth feddygol mewn coridorau ysbytai. Mewn ymateb, dywedodd Mr Edwards nad yw'r staff meddygol chwaith yn dymuno gofalu am gleifion mewn coridorau, ond oherwydd nifer y cleifion sy'n dod i mewn i'r adran achosion brys mae'r sefyllfa hon wedi mynd yn waeth. Dywedodd Mr Andrew fod ambiwlansys sy'n aros i ryddhau cleifion i'r adran achosion brys yn annerbyniol, a'r hyn sy'n deillio o hynny yw bod nifer uchel o gleifion yn yr adran sy'n aros i gael eu gweld.
- Cyfeiriwyd at gau'r Ysbytai Bach ar draws y rhanbarth, a'i bod yn ymddangos ers iddynt gau, fod ôl-groniad enfawr o gleifion sy'n aros am driniaeth. Mewn ymateb, dywedodd Mr Edwards fod capasiti yn y gymuned yn bwysig wrth drin cleifion ond gyda chymaint o gleifion yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty mae hyn yn creu problemau ac mae llif y cleifion i mewn ac allan o'r ysbyty yn creu'r problemau o fewn adrannau achosion brys ym mhob ysbyty. Cyfeiriodd at Dîm Gofal Gwell Môn (Tîm MEC) ar Ynys Môn sy'n trin pobl gartref sy'n debyg i'r ddarpariaeth a arferai fod ar gael mewn Ysbytai Bach dros y blynyddoedd.
- Cyfeiriwyd at y cynnydd yn y defnydd o cetamin a'r cynnydd yn nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Iechyd ac asiantaethau eraill i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y defnydd o getaminau. Mewn ymateb, dywedodd Mr Edwards fod y Tîm

Iechyd Meddwl yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill a dywedodd y byddai'n rhoi gwybodaeth am y gwaith a wnaed yn ysgrifenedig i'r Awdurdod. Dywedodd y Prif Weithredwr fod cydweithio cadarn rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd i ddiwallu anghenion trigolion Ynys Môn. Byddai cael Canolfan Iechyd Cymunedol yng Nghaergybi yn bwysig i wella gofal cleifion a gobeithio, ar ôl cael caniatâd cynllunio, gellir mynd ar drywydd grantiau. Dywedodd ymhellach fod angen gwella cytundeb ynghylch Pecynnau Gofal a phroses gyflymach o ran pwy sy'n cyfrannu'n ariannol tuag at y pecynnau hyn. Dywedodd fod diffyg cyllid i'r Awdurdod hwn ddarparu'r gwasanaeth i gleifion ac mae angen bod yn fwy effeithlon.

**PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad gan gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd.**

**4 CRAFFU AR BARTNERIAETHAU STRATEGOL - YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU.**

Croesawodd y Cadeirydd Ms Emma Wood – Prif Weithredwr a Ms Estelle Hitchon – Cyfarwyddwr Partneriaeth ac Ymgysylltu Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i'r cyfarfod.

Cafwyd cyflwyniad byr gan gynrychiolydd o Wasanaeth Ambiwlans Cymru a dynnodd sylw at Fframwaith Cam 2 Ambiwlans Cymru diweddar i fynd i'r afael ag anghenion clinigol y cleifion.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch a yw trosglwyddo cleifion mewn Ambiwlans o fewn 15 munud i'r adran achosion brys yn dal i fod yn darged. Mewn ymateb, dywedodd Ms Emma Wood mai targed y DU ar gyfer trosglwyddo cleifion yw 15 munud. Nododd fod gwaith wedi'i wneud gan y Gwasanaethau Ambiwlans gyda'r holl Fyrddau Iechyd i ddod â'r cyfnod trosglwyddo presennol i 45 munud. Yn Adroddiad Argymhelliad y Grŵp Cynghori Gweinidogol pwysleisiwyd mai 45 munud yw'r targed fel cyfnod trosglwyddo. Dywedodd Ms Estelle Hitchon y byddai trosglwyddo cleifion o 45 munud yn welliant sylweddol i'r cyfnod trosglwyddo presennol a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf.
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa gamau penodol sy'n cael eu cymryd i wella'r cyfnodau ymateb ar gyfer argyfyngau categori 1 a chategori 2 ar Ynys Môn ac a oes digon o griwiau Ambiwlans i wasanaethu ardal wledig o'r fath neu a yw'r gwasanaeth yn dibynnu ar griwiau o Fangor a Gwynedd. Mewn ymateb, dywedodd Ms Emma Wood fod gweithdrefn galw a chapasiti yn cael ei chynnal i sicrhau bod adnoddau ambiwlans priodol yn yr ardal. Nododd fod y gwasanaeth yn dibynnu ar wirfoddolwyr o fewn ardaloedd gwledig, gydag ymatebwyr cyntaf a cherbydau ymateb cyflym hefyd yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, po hiraf y mae'r rhain yn sefyll yn llonydd y tu allan i ysbytai, y lleiaf o adnoddau sydd ar gael i ofalu am gleifion. Nododd fod criwiau o ardaloedd eraill yn cael eu defnyddio pan fo angen, Gyda'r model ymateb newydd, dywedodd Ms Estelle Hitchon fod mwy o gymorth lles a chymorth clinigol dros y ffôn i gleifion sy'n aros am ambiwlans er mwyn asesu a yw claf yn dirywio/gwella neu a yw'r teulu wedi penderfynu mynd â'r cleifion i'r ysbyty eu hunain. Mae Ymatebwyr Cymunedol hefyd yn ymateb i

gleifion categori is os oes angen er mwyn monitro cyflwr y claf ac i roi gwybod i'r Gwasanaeth Ambiwlans.

- Codwyd cwestiynau ynglŷn â nifer y galwadau y mae'r Gwasanaeth Ambiwlans yn eu derbyn mewn perthynas ag argyfyngau Iechyd Meddwl a pha hyfforddiant arbenigol sy'n cael ei ddarparu i'r staff. Mewn ymateb, dywedodd Ms Emma Wood y bydd angen rhoi'r wybodaeth am nifer y galwadau a dderbynnir mewn perthynas ag argyfyngau Iechyd Meddwl i'r Pwyllgor maes o law. Nododd fod hyfforddiant ar gyfer argyfyngau Iechyd Meddwl yn rhan o'r Cwrs i Barafeddygon a ddarperir gan y Brifysgol ac mae'r Gwasanaethau Ambiwlans yn ceisio gwella hyfforddiant ar gyfer criwiau ambiwlans. Dywedodd ymhellach y gall nyrsys hyfforddedig o fewn Canolfan Alwadau Gwasanaethau Ambiwlans hysbysu a chyfeirio'r ymarferwyr sydd â sgiliau uwch ym maes Iechyd Meddwl at y cleifion.

- Codwyd cwestiynau ynghylch pam y cyfeirir at gleifion strôc fel ymateb categori ambr; y gred oedd bod angen i'r cleifion hyn dderbyn triniaeth o fewn amserlen benodol. Mewn ymateb, dywedodd Ms Emma Wood fod y categori coch a phorffor ar gyfer ymateb i gleifion sy'n profi ataliad ar y galon neu ataliad anadlol a bod cleifion strôc yn cael eu categoreiddio fel rhai sydd angen ymateb amserol a'u trosglwyddo i ganolfan arbenigol sy'n rhan o safonau perfformiad y Gwasanaeth Ambiwlans. Dywedodd Ms Estelle Hitchon fod y galwadau wedi'u categoreiddio, a bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i adolygu'r categorïau ambr.

- Cyfeiriwyd at Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 a'r newid o ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd. Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r hyn yr hoffai'r Gwasanaeth Ambiwlans ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth gwell i gleifion heblaw buddsoddiad ychwanegol. Mewn ymateb, dywedodd Ms Emma Wood y byddai mesurau iechyd ataliol a gwella'r drefn o ryddhau cleifion a llwybrau gofal yn fanteisiol.

- Cyfeiriwyd at y ffaith y cynhaliwyd cynllun peilot llwyddiannus ychydig flynyddoedd yn ôl yng ngogledd-ddwyrain Cymru gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn delio â chwympiadau nad oeddent yn rhai difrifol. Er nad oedd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth hwn, gofynnwyd a ellid ymchwilio eto i hyn er mwyn lleddfu'r pwysau ar y Gwasanaeth Ambiwlans. Mewn ymateb, dywedodd Ms Emma Wood fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaeth Ambiwlans ar gyfer 'desg cwympiadau' ar gyfer cymorth clinigol a arweiniodd at system o hysbysu aelodau o'r teulu i helpu'r claf i wella ar ôl cwymp. Dywedodd Ms Estelle Hitchon y gellir codi'r mater gyda Phrif Swyddog Tân Gogledd Cymru ac o fewn y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd.

- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r effaith ar y Gwasanaeth Ambiwlans ar ôl i'r gwasanaeth Ambiwlans Awyr ym Maes Awyr Caernarfon ddod i ben. Mewn ymateb, dywedodd Ms Emma Wood fod gwasanaethau cadarn ar waith waeth ble mae'r Gwasanaeth Ambiwlans Awyr wedi'i leoli.

- Codwyd cwestiynau ynghylch a oes gan y Gwasanaeth Ambiwlans gynlluniau wrth gefn pe bai'r ddwy bont ar draws Afon Menai yn cael eu cau oherwydd tywydd gwael neu argyfyngau eraill.  Mewn ymateb, dywedodd Ms Emma Wood fod gan y Gwasanaeth Ambiwlans gynllun gwytnwch brys os bydd y pontydd, y twneli neu'r traffyrdd yn cael eu cau a'u bod yn gweithio ar y cyd â phartneriaid goleuadau glas i roi cynllun ar waith.

**PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad gan gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, Euryn Morris, Pip O'Neill, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams a Liz Wood<br><br>Ms Kathryn Seeney - Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Cynradd, Ms Christina Williams - Rhiant Lywodraethwr Uwchradd ac ADY<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg (ar gyfer eitem 4);<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a Newid Hinsawdd (ar gyfer eitem 3). |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr<br>Y Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 4),<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitem 3),<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GPW) (ar gyfer eitem 3 yn unig),<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME) (ar gyfer eitem 3 yn unig)<br>Arweinydd Strategol (Cynradd) (RW) (ar gyfer eitem 4 yn unig)<br>Prif Swyddog Digidol (MH) (ar gyfer eitem 4 yn unig)<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu'r Gwasanaeth Pwyllgorau (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr John Ifan Jones a Derek Owen.<br><br>Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo;<br>Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion;<br>Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones - Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc |

a Theuluoedd;

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad.

**3 YMGYNGHORIAD CASGLU GWASTRAFF AC AILGYLCHU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd fod gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i gyflawni cyfradd ailgylchu o 70%, ac nad yw'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Er mwyn gwella'r cyfraddau ailgylchu a bodloni'r rhwymedigaeth statudol, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried gwneud newidiadau i drefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu. Mae gofyniad i ymgynghori gyda'r rheiny sy'n debygol o gael eu heffeithio wrth ystyried unrhyw gynnig i wneud newid sylweddol i wasanaeth, yn enwedig os mai cynnig i leihau gwasanaeth ydyw. Gan y bydd unrhyw newid i'r gwasanaeth casglu yn effeithio ar gartrefi Ynys Môn, bydd angen dilyn proses ymgynghori lawn. Cyfeiriodd at Atodiad 1 oedd wedi ei atodi i'r adroddiad, a dywedodd fod y Cyngor wedi gosod ymrwymiad clir i warchod yr amgylchedd a lleihau ôl-troed carbon yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028, ac mae ailgylchu yn hollbwysig mewn perthynas â'r gwaith hwnnw. Drwy leihau swm y gwastraff mae'n rhaid cael gwared ag o, gellir lleihau allyriadau, gwarchod adnoddau gwerthfawr a helpu i greu amgylchedd glanach, mwy gwyrdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ar hyn o bryd, mae cyfradd ailgylchu'r Awdurdod yn 65% sy'n is na'r targed o 70%, ac yn seiliedig ar y cyfraddau ailgylchu hyn, gall y Cyngor wynebu dirwy o oddeutu £350k bob blwyddyn. Dywedodd fod WRAP Cymru yn rhestru'r camau posibl y gellid eu cymryd i wella cyfraddau ailgylchu (roedd dolen ar gyfer y ddogfen ar gael yn Atodiad 1). Mae WRAP Cymru hefyd yn nodi bod modd ailgylchu 52% o'r gwastraff sy'n cael ei roi mewn biniau du ar Ynys Môn ar hyn o bryd, ac maent wedi ymweld â Safle Gwastraff Penhesgyn i wahanu'r gwastraff yn y biniau du. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd mai bwriad yr adroddiad yw cadarnhau a yw'r Pwyllgor Sgriwtini o'r farn fod y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori yn briodol a digonol. Yn dibynnu ar ganlyniad y broses ymgynghori, mae'n bosibl y bydd binau du yn cael eu casglu bob 4 wythnos yn y dyfodol. Dywedodd ei bod yn bwysig cael ymateb i'r ymgynghoriad, a all fod yn ddadleuol, er mwyn cael safbwyntiau ar ffyrdd i wella ailgylchu ar yr ynys. Dywedodd y byddai'n rhaid cael buddsoddiad ar gyfer unrhyw newid, o oddeutu £3m i £16m, er mwyn cael cerbydau newydd ac i wneud gwelliannau yn y safleoedd gwastraff ac ailgylchu, ac oherwydd hyn ni fydd unrhyw newid i'r gwasanaeth casglu yn digwydd dan 2029. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru'n darparu grantiau os ystyrir bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i leihau gwastraff a gwella cyfraddau ailgylchu.

Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y bydd angen gwneud mân newidiadau i'r holiadur i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r gofyniad rhithiol sydd ar wefan y Cyngor a bydd cwestiwn ychwanegol yn cael ei gynnwys yn ymwneud â'r effaith ar yr iaith Gymraeg er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Gydraddoldeb.

Wrth ystyried yr adroddiad, cafodd y materion isod eu crybwyll:-

- Nodwyd mai'r targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yw i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70%. Gofynnwyd a fydd yr Awdurdod yn wynebu dirwy o £350k bob blwyddyn nes bo'r newidiadau arfaethedig yn dod i rym o fewn y gwasanaeth casglu yn 2029. Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch a ellir gwneud y newidiadau arfaethedig yn gynt a gwella cyfraddau ailgylchu drwy ddefnyddio darpariaeth ailgylchu ychwanegol h.y. casglu mwy o wastraff cardfwrdd. Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd mai gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymdrechu i wella cyfraddau ailgylchu a bod ganddynt gynllun ar waith i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70%. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y bydd angen gwneud gwaith sylweddol i sicrhau bod yr isadeiledd ar waith cyn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth casglu gwastraff. Roedd o'r farn bod cyflwyno'r newidiadau ym mis Hydref 2029 yn briodol gan y bydd gostyngiad yn nifer uchel y twristiaid sydd ar yr Ynys a bydd hynny cyn cyfnod y Nadolig. Dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod y dirwyon a osodir gan Lywodraeth Cymru yn berthnasol ar hyn o bryd i awdurdodau lleol nad ydynt yn cyrraedd y cyfraddau ailgylchu gofynnol. Fodd bynnag, mae ymgynghori cyson yn digwydd gyda Llywodraeth Cymru gan eu bod angen tystiolaeth bod gan yr Awdurdod gynllun credadwy ar waith i gyrraedd y targedau ailgylchu gofynnol sy'n arwain at osgoi'r risg o ddirwyon a osodir, a bydd y broses ymgynghori yn rhan o'r sail dystiolaeth i fynd i'r afael â gofyniad Llywodraeth Cymru.
- Dywedwyd bod angen i bobl gael gwybodaeth ychwanegol ynghylch y deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn hytrach na'u rhoi yn y bin du. Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd y byddai gwaith yn cael ei wneud gyda Thîm Cyfathrebu'r Awdurdod i hyrwyddo ac addysgu trigolion am y gofynion ailgylchu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod staff yn ymweld â chymunedau ac ysgolion i hyrwyddo ailgylchu a bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi grant i gefnogi darpariaeth o'r fath. Cyfeiriwyd at y ffaith y dylid gwneud trigolion yn ymwybodol o'r math o ddeunyddiau y mae angen eu hailgylchu ac i bwysleisio bod gwastraff glân y gellir ei ailgylchu yn denu pris uwch.
- Codwyd cwestiynau ynghylch a yw'n bosibl y bydd diswyddiadau staff yn digwydd os bydd yr Awdurdod yn penderfynu casglu biniau du bob 4 wythnos. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo nad oes disgwyl y bydd diswyddiadau staff gan y byddant yn casglu ac yn prosesu deunyddiau ailgylchu ychwanegol.
- Codwyd cwestiynau ynghylch a all yr Awdurdod dargedu'r ardaloedd sy'n is na'r ffigurau ailgylchu presennol o 65%. Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd fod rhai ardaloedd gyda nifer fawr o fflatiau a thai teras yng Nghaergybi sy'n ei gwneud hi'n anoddach i bobl allu ailgylchu a storio'r bocsys ailgylchu.

- Gofynnwyd a roddwyd ystyriaeth i’r posibilrwydd y bydd newid llywodraeth yn digwydd o fewn Llywodraeth Cymru yn dilyn Etholiad y Senedd ym mis Mai 2026 a all ddod â’r gofyniad am gyfraddau ailgylchu o 70% i ben. Dywedodd yr Aelod Portffolio mai blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw cynyddu cyfraddau ailgylchu, ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn ofyniad statudol gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r cyfraddau ailgylchu o 70%, a bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i gyrraedd y targed fel yr amlygir yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr Awdurdod wedi mynd y tu hwnt i’r gyfradd ailgylchu gofynnol o 70% yn flaenorol. Gofynnwyd beth oedd y rhesymau fod y cyfraddau ailgylchu wedi gostwng dros y blynyddoedd. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y gostyngiad mewn cyfraddau ailgylchu wedi digwydd yn ystod y cyfnod clo yn ystod y pandemig. Mae tueddiadau'n newid, ac mae pobl yn prynu mwy o nwyddau ar-lein, ac felly mae cynnydd mewn gwastraff cardbord. Dywedodd nad yw rhai twristiaid wedi arfer ag ailgylchu, fel sy'n ofynnol yng Nghymru. Gofynnwyd a allai cynyddu'r gyfradd yn uwch na 5% fod yn opsiwn i'w ystyried. Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd y gwerthfawrogir y bydd gwahaniaeth barn ynghylch y newidiadau arfaethedig wrth gasglu gwastraff y gellir ei ailgylchu a sbwriel bin du, ond y cynnig yw darparu bocsys ychwanegol i ailgylchu a mwy o gyfathrebu ac addysg am y gofyniad i ailgylchu. Dywedodd y Prif Weithredwr mai pwrpas yr adroddiad yw canfod a yw'r broses ymgynghori yn ddigonol i fesur barn trigolion Ynys Môn o ran yr angen i gynyddu'r cyfraddau ailgylchu ar Ynys Môn ac, o bosibl, casglu biniau du bob 4 wythnos. Nododd fod gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud gyda WRAP Cymru a Llywodraeth Cymru, sydd wedi arwain at yr angen i wella'r cyfraddau ailgylchu ac osgoi dirwyon posibl. Dywedodd fod angen dull penodol mewn rhai ardaloedd, gyda rhai trigolion ddim yn cyfrannu at yr angen i ailgylchu.
- Gofynnwyd cwestiynau am y 52% o ddeunyddiau ailgylchadwy oedd yn y bin sbwriel du. Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd mai gwastraff bwyd yn bennaf sydd wedi'i ganfod yn y bin sbwriel du, a fyddai wedi gallu ei ailgylchu.
- Cyfeiriwyd at amseriad yr ymgynghoriad cyhoeddus a ddechreuodd ar 7 Ionawr, 2026 fydd yn para 6wythnos. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a fyddai’n fanteisiol cynnal y broses ymgynghori gyhoeddus pan anfonir Biliau’r Dreth Gyngor at drigolion yr Ynys. Credwyd y byddai hyn yn rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i bobl nad oes ganddynt gyfryngau cymdeithasol. Dywedwyd y dylai'r dulliau ymgynghori dargedu'r henoed nad oes ganddynt gyfryngau cymdeithasol, ac y dylid cynnal ymweliadau yn eu cymunedau lleol. Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo nad oedd yn siŵr a fyddai gohirio'r broses ymgynghori yn arwain at fwy o bobl yn ymateb i'r ymgynghoriad, ond y byddai'n trafod y mater gyda'r Swyddogion yn fuan. Nododd mai'r rheswm dros ddechrau'r ymgynghoriad ddechrau'r flwyddyn oedd i osgoi cyfnod cyn-etholiad Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 ac er mwyn gallu gwerthuso'r ymatebion. Dywedodd Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod dolenni ar gael ar gyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod i amlygu lle mae'r deunyddiau ailgylchu'n cael eu prosesu. Aeth ymlaen i ddweud y byddai gohirio'r ymgynghoriad yn cael effaith negyddol gan fod angen i'r Awdurdod ddangos yr ymrwymiad o ran gwella cyfraddau ailgylchu er mwyn osgoi dirwyon posibl gan Lywodraeth Cymru.

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a oes datrysiadau eraill wedi'u hystyried pe bai ymateb negyddol gan drigolion yr Ynys yn ystod y broses ymgynghori. Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ei bod yn hollbwysig fod trigolion yr Ynys yn ymateb i'r broses ymgynghori gan ei fod yn effeithio ar bob preswylydd o ran casglu gwastraff ac ailgylchu.
- Cyfeiriwyd at faint o nwyddau sy'n cael eu pecynnu gan archfarchnadoedd a chwmnïau sy'n dosbarthu nwyddau fel Amazon ac mae angen targedu'r cwmnïau hyn yn hytrach na'r trigolion yn unig. Cytunodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd y dylai llywodraethau dargedu cwmnïau ac archfarchnadoedd i leihau deunydd pacio. Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch a oes gostyngiad mewn ailgylchu yn y gweithle gyda mwy o bobl yn gweithio gartref. Dywedodd y Prif Weithredwr fod ailgylchu yn y gweithle ac yn y cartref yn cael eu rheoli ar wahân a bod dyletswydd i wneud y mwyaf o'r ddau er mwyn cyrraedd y targedau ailgylchu. Dywedodd fod system ailgylchu newydd wedi'i chyflwyno yn Swyddfeydd y Cyngor i wella ailgylchu yn y gweithle.

**PENDERFYNWYD argymell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith:-**

- **Cymeradwyo cynnal proses ymgynghori ar newid y gwasanaeth ailgylchu/casglu gwastraff i helpu i gwrdd â'r targed ailgylchu statudol o 70%.**
- **Derbyn y cwestiynau i'w gofyn fel rhan o'r broses ymgynghori.**
- **Derbyn yr amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus, yn dechrau ar 7 Ionawr, 2026 ac yn para am 6 wythnos, ond gyda'r disgwyliad y rhoddir ystyriaeth i bryder y Pwyllgor.**

**4 CYNLLUN STRATEGOL DIGIDOL ADDYSG 2026-2031**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg fod y Cynllun Strategol Addysg Ddigidol yn cyfrannu at ddatblygu system addysg fodern. Daeth y cynllun presennol i ben yn 2024 ac felly mae angen sefydlu cynllun newydd ar gyfer y cyfnod nesaf. Mae'r gofyniad am offer TG mewn ysgolion wedi cynyddu dros y blynyddoedd ac mae'n bwysig eu bod yn bodloni'r gofynion cyfredol.

Wrth ystyried yr adroddiad, cafodd y materion isod eu crybwyll:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr adroddiadau'n nodi bod y Cyngor wedi clustnodi swm i ariannu'r Cynllun Strategol, ond mae'n annhebygol y bydd y cronfeydd a glustnodwyd ar hyn o bryd yn ddigonol. Codwyd cwestiynau ynghylch y goblygiadau i'r Cynllun, hynny ydi, nad oes digon o gyllid a beth yw'r diffyg y mae'r Cyngor yn ei wynebu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer rhan o'r Cynllun Strategol, fodd bynnag, mae diffyg cyllid i gyflawni'r Cynllun ar hyn o bryd. Bydd yn rhaid cynnal trafodaethau i sicrhau y gellir dod o hyd i gyllid ychwanegol a bydd angen defnyddio data i sicrhau y bydd unrhyw gyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer anghenion yr ysgolion. Bydd angen buddsoddi mewn offer a seilwaith. Nododd fod y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol

gyfredol, a bydd angen ymchwilio i'r bylchau yn y dyfodol. Dywedodd y Prif Swyddog Digidol fod gwaith wedi'i wneud i fesur y diffyg posibl a'r gofynion seilwaith ynghyd â goblygiadau cost i uwchraddio offer yn barhaus. Bydd angen ymgysylltu ag ysgolion i fesur eu hanghenion er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei fodloni.

- Gofynnwyd cwestiynau a fyddai gwybodaeth yn cael ei chasglu ynghylch sgiliau TG staff yr ysgol cyn gweithredu'r Cynllun Strategol. Dywedodd yr Arweinydd Strategol (Cynradd) fod sgiliau staff yn cael eu monitro, a bod Cydlynwyr Digidol yn casglu'r data mewn perthynas ag anghenion datblygu sgiliau o fewn y dalgylchoedd cynradd a oedd yn rhan o'r Cynllun blaenorol.
- Gofynnwyd sut fydd perfformiad y Cynllun Strategol yn cael ei fonitro yn ystod y cyfnod 2026-2031. Dywedodd yr Arweinydd Strategol (Cynradd) y bydd angen datblygu cefnogaeth yn y sector cynradd mewn perthynas â phynciau STEM gyda rhwydweithiau uwchradd sy'n cefnogi uwchsgilio ac yn rhannu arfer da gyda phob ysgol uwchradd. Mae hyn yn rhan o ddatblygu system hunan-ddatblygiadol.
- Gofynnwyd a oedd darpariaeth ddigonol wedi'i rhoi ar waith ar ôl i Gwmni Cynnal ddod i ben yn 2022. Dywedodd y Prif Swyddog Digidol fod trosglwyddo’r darpariaeth i'r Awdurdod ar ôl i Gwmni Cynnal ddod i ben yn 2022 wedi bod yn newid sylweddol i ysgolion a staff y Cyngor oedd wedi arfer derbyn y gwasanaeth gan Gwmni Cynnal ers blynyddoedd lawer. Nododd fod ymgynghoriad wedi'i gynnal ag ysgolion i asesu eu gofynion ac i wneud yn siŵr bod darpariaeth TG yr ysgol yn ddigonol.
- Gofynnwyd a allai'r platfform digidol gefnogi plant ag anawsterau darllen a rhifedd. Dywedodd yr Arweinydd Strategol (Cynradd) fod angen edrych ar yr elfen ddigidol sy'n cefnogi'r cwricwlwm ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth i ddysgwyr.
- Gofynnwyd cwestiynau am nifer y Chromebooks ac iPads sydd mewn ysgolion ar hyn o bryd a faint yn fwy sydd heb eu cyfrif. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod rheoli dyfeisiau yn ddarpariaeth ar y cyd rhwng yr Adrannau Dysgu a TG a'r ysgolion. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr mai cyfrifoldeb y Penaethiaid a'r Cyrff Llywodraethol yw sicrhau bod dyfeisiau TG yn yr ysgolion yn cael eu cyfrif. Gwnaed sylwadau pellach ei bod hi’n bwysig bod disgyblion yn defnyddio’r Chromebooks a ddarperir a bod Athrawon yn defnyddio’r dechnoleg i ddarparu gwersi addysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod Grŵp Llywio wedi'i sefydlu, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Weithredwr, fydd yn sicrhau trefniadau llywodraethu a monitro clir; rhoddir adborth gan y Grŵp Llywio i'r Aelod Portffolio dros Addysg a'r Iaith Gymraeg.
- Cyfeiriwyd at rannu arferion da sy'n digwydd o fewn ysgolion, gyda dwy ysgol yn buddsoddi mewn ffôn symudol i dderbyn negeseuon testun gan rieni. Defnyddiwyd platfform Google hefyd ar gyfer trosglwyddo disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 fel bo disgyblion yn rhannu eu pryderon a'u profiadau o'r cyfnod pontio i'r ysgolion uwchradd.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod rhai ysgolion yn defnyddio systemau digidol gwahanol a bod data rhai disgyblion ar goll. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y byddai System Gwybodaeth Reoli newydd yn cael ei chyflwyno o fewn y 18 mis nesaf fydd yn arwain at fwy o gysondeb o ran defnydd yr ysgol o'r systemau. Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Addysg a'r Iaith Gymraeg ei bod yn destun pryder bod sylwadau wedi'u gwneud bod data disgyblion ar goll.

Dywedodd fod gan bob ysgol bolisi GDPR a'u bod wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu data.

- Gofynnwyd sut fydd y Cynllun Strategol yn cael ei fonitro o ran cau'r bwlch ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod angen sicrhau bod pob disgybl yn gallu cael mynediad at ddyfeisiau digidol. Bydd y Grŵp Llywio yn monitro'r ddarpariaeth. Bydd y Cynllun Strategol Digidol yn seiliedig ar ddata, a chyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth ynghylch sut mae'r bylchau'n cael eu lleihau o fewn gwasanaethau digidol mewn ysgolion.
- Holwyd am y prif risg o ran seiberddiogelwch mewn ysgolion. Dywedodd y Prif Swyddog Digidol fod risg seiberddiogelwch yn cynyddu gyda'r cynnydd mewn dyfeisiau mewn ysgolion. Nododd fod asesiad wedi'i gynnal o'r risg seiberddiogelwch o fewn yr Awdurdod ac ysgolion sy'n cynnwys meddalwedd wystlo, gyda ffeiliau'n cael eu cloi a'r Cyngor yn wynebu risgiau pridwerth. Mae cynlluniau ar waith i liniaru'r risgiau ac i sicrhau bod diweddariadau a waliau tân wedi'u gosod ar ddyfeisiau.
- Cyfeiriwyd at y cyhoeddiad y bydd adweithyddion modiwlar bach newydd yn cael eu hadeiladu ar Safle Wylfa a bod Ynys Môn wedi'i nodi fel parth twf DA. Gofynnwyd a oedd partneriaethau posibl wedi'u nodi o ran y parth twf DA ac a fyddai buddsoddiad gan y ddwy lywodraeth yn cael ei ganiatáu i wella sgiliau digidol ar yr Ynys. Dywedodd y Prif Weithredwr fod angen gwybod beth yw potensial y parth twf DA a nodwyd yn y lle cyntaf; gobeithir y bydd y buddsoddiad DA yn rhan o statws y Porthladd Rhydd. Dywedodd, unwaith y bydd statws y Porthladd Rhydd wedi'i sefydlu, y bydd ymgysylltu'n digwydd gyda phartneriaid allweddol fel Coleg Menai a Phrifysgol Bangor i sicrhau bod y cyrsiau addysgol yn cyd-fynd â disgwyliadau cyflogwyr posibl ar gyfer y genhedlaeth nesaf.
- Gofynnwyd a oes potensial i ddisgyblion gael eu haddysgu ar sut i ddefnyddio ffonau symudol yn ddiogel a defnyddio llwyfannau digidol a argymhellir o fewn amgylchedd yr ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod defnyddio ffonau symudol o fewn amgylchedd yr ysgol yn fater i Gyrff Llywodraethu'r ysgolion.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y dechnoleg ddigidol yn parhau i ddatblygu gyda thechnoleg yn cael ei huwchraddio'n rheolaidd. Codwyd cwestiynau ynghylch y risg sy'n gysylltiedig â'r diffyg cyllid sydd ar gael i barhau i uwchraddio systemau er mwyn sicrhau y gall disgyblion fanteisio ar bob cyfle i allu cystadlu am gyfleoedd gwaith yn y dyfodol. Dywedodd y Prif Swyddog Digidol ei bod yn her gallu uwchraddio systemau yn barhaus. Nododd fod yr Awdurdod yn ffodus i fod yn rhan o Dîm Hwb Llywodraeth Cymru sydd â chynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru sy'n trafod technolegau newydd, tueddiadau a phrosesau newydd wrth fynd i'r afael â thechnoleg DA a darpariaeth ariannu bosibl.
- Nodwyd nad oes gan rai disgyblion fynediad i'r rhyngrwyd gartref. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd y disgyblion hyn yn cael eu cefnogi os bydd mwy o ddarpariaeth yn cael ei chynnal ar-lein. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei bod hi'n bwysig bod ysgolion yn nodi'r gefnogaeth i bob disgybl pan fydd gwaith yn cael ei osod ar-lein.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys y Cynllun Strategol Addysg Ddigidol ar gyfer y cyfnod 2026-2031.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 20 Ionawr 2026 |
| **Pwnc:** | Diogelu Corfforaethol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Dylan Rees |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Cynghorydd Dyfed Wyn Jones | Aelod portffolio ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Fôn Roberts | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Sian Peacock | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrwydd Ansawdd |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol adrodd i Aelodau gan roi trosolwg o berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol.

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Sgriwtini herio a chraffu ar waith a pherfformiad y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol. Bydd sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini yn arwain ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau rhaglen waith y Bwrdd Corfforaethol.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

Ar ôl archwilio'r wybodaeth a gyflwynwyd ac adolygu datblygiadau dros y 12 mis diwethaf, gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn cynnwys yr Adroddiad Diogelu a cheisio sicrwydd bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau Diogelu Corfforaethol yn llawn.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae Atal a Diogelu wedi'u rhestru yn y Cynllun Corfforaethol 2023-28 fel un o Egwyddorion Cyffredinol allweddol y Cyngor

***Mae Diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Mae cyfrifoldeb ar bob gwasanaeth a gweithiwr yn y cyngor i ddiogelu pobl, beth bynnag yw eu rôl neu eu teitl. Mae'r Cyngor yn credu bod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed."***

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1.Hyfforddiant
2. Cydweithio amlasiantaethol
2. Cynllun cyfathrebu diogelu

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn diffinio diogelu fel hyn:

> ***"Atal ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon"***

Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb. Mae'r egwyddor hon wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth, canllawiau statudol a Chodau Ymarfer yng Nghymru, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cynorthwyo staff mewn gwahanol asiantaethau a ledled Cymru i gymhwyso deddfwriaeth a chanllawiau diogelu yn eu hymarfer. Maent yn darparu cyngor ynglŷn â nodi ac ymateb i bryderon am blant unigol sydd mewn perygl ac oedolion sydd mewn perygl. Yn ogystal â sicrhau ein bod yn gallu ymateb i bryderon diogelu am blant ac oedolion unigol, mae angen gweithio i sicrhau fod gwasanaethau, lleoedd a mannau yng Nghymru yn atal risgiau ac yn hyrwyddo diogelwch.

Mae gan Gynghorau rôl statudol hanfodol bwysig o ran diogelu plant ac oedolion ac mae ganddynt gyfrifoldeb allweddol i arwain ar atal cam-drin plant a hyrwyddo eu llesiant. Ni all diogelu fod yn wirioneddol effeithiol oni bai ei fod yn cael ei ymgorffori ym mhob Cyfarwyddiaeth, Adran a Thîm o fewn Cyngor Sir Ynys Môn. Mae gan bawb - yn weithwyr, contractwyr, gwirfoddolwyr ac Aelodau Etholedig ran i'w chwarae o ran amddiffyn plant ac oedolion bregus rhag niwed, boed hynny yn y cartref, neu du allan i'r cartref.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| N/A |

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| N/A |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| N/A |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Niwtral |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| N/A |

## 9. Atodiadau

- Newyddlen Diogelu
- Cylch Gorchwyl Bwrdd Diogelu Corfforaethol
- Hyfforddiant Prevent
- Llythyr Swyddfa Cartref re Gwiriad Sicrwydd Blynyddol "Prevent"

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Sian Peacock |

This page is intentionally left blank

**1. Llywodraethu a Chylch Gorchwyl**

Un o'r prif weithredoedd yn dilyn cyfarfod y pwyllgor sgriwtini ym mis Ionawr 2025 oedd adolygu Cylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol a'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau bellach, ac mae'r Cylch Gorchwyl diwygiedig wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Mae'r newidiadau hyn yn cryfhau trefniadau llywodraethu, egluro atebolrwydd ac yn sicrhau fod cyfrifoldebau diogelu'n cael eu gwreiddio'n gyson o fewn y Cyngor.

**2. Cryfhau Aelodaeth ac Ymgysylltu**

Mae'r Bwrdd Gweithredu Diogelu Corfforaethol wedi ehangu ei aelodaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae cynrychiolwyr o bron pob un o gyfarwyddiaethau'r cyngor bellach yn aelodau. Mae hyn wedi cryfhau ymgysylltu trawsadrannol yn sylweddol a chreu momentwm cadarnhaol er mwyn datblygu cyfrifoldebau diogelu o fewn Cyngor Sir Ynys Môn.

Paratowyd nodyn briffio ar gyfer Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth ac aelodau'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu corfforaethol. Mae hyn yn atgyfnerthu atebolrwydd ar lefel uwch swyddogion ac mae'n cynnal ymarfer diogelu cyson o fewn yr holl feysydd gwasanaeth.

**3. Cofrestr Risgiau Corfforaethol a Chyfathrebu**

Mae diogelu'n parhau i gael ei nodi fel y trydydd risg mwyaf i'r Cyngor. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen am drosolwg corfforaethol cryf a pharhau i rannu'r neges fod *Diogelu'n Gyfrifoldeb i Bawb*.

Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu ym mis Tachwedd 2025 dosbarthwyd newyddlen diogelu corfforaethol i'r holl staff er mwyn:

- Atgoffa gweithwyr am eu dyletswyddau diogelu a'r llwybrau adrodd
- Atgyfnerthu'r neges fod Diogelu'n Gyfrifoldeb i Bawb
- Hyrwyddo'r modiwl e-ddysgu mandadol, Diogelu Grŵp A.

Byddwn yn awr yn cyhoeddi newyddlen diogelu bob chwarter a bydd y rhifyn nesaf yn canolbwyntio ar Gam-drin Domestig.

Mae Tîm Cyfathrebu'r Cyngor yn cynorthwyo'r Bwrdd Gweithredol Diogelu Corfforaethol i ddatblygu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr. Bydd hyn yn sicrhau fod cyngor a gwybodaeth ynghylch diogelu'n cael ei rannu'n rheolaidd â staff a'i hyrwyddo ymysg y cyhoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a sianelau cyfathrebu eraill.

**4. Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a Gwaith Amlasiantaethol**

Mae staff Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Safonau Masnach yn parhau i fod yn aelodau gweithredol o'r cyfarfodydd Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a drefnir gan Heddlu Gogledd Cymru.

Mae enghreifftiau diweddar o waith partneriaeth effeithiol yn cynnwys camau a gymerwyd gan swyddogion Safonau Masnach yn erbyn siopau fêps pan godwyd pryderon fod cynhyrchion yn cael eu defnyddio i gam-fanteisio ar bobl ifanc. Dengys hyn effaith gadarnhaol cydweithio amlasiantaethol o ran lleihau risgiau ac amddiffyn unigolion agored i niwed.

Mae trafodaethau â Heddlu Gogledd Cymru'n mynd rhagddynt hefyd, mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth ar yr Ymgyrch *Makesafe*. Mae'r ymgyrch hon yn cynorthwyo i nodi ac atal achosion o gam-fanteisio, yn arbennig mewn lleoedd tebyg i westai, cwmnïau tacsi, siopau a busnesau eraill sy'n ymwneud â'r cyhoedd. Mae'n codi ymwybyddiaeth ymysg staff fel y gallant adnabod arwyddion o gam-fanteisio rhywiol a cham-fanteisio troseddol ac adrodd ar unwaith am unrhyw bryderon er mwyn diogelu pobl ifanc. Bydd y Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) sy'n arwain y gwaith hwn yn bresennol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol maes o law.

**5. Y Ddyletswydd Prevent ac Ymwybyddiaeth o Radicaleiddio**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn eisoes wedi derbyn arian o'r Gronfa Atal Radicaleiddio gan y Swyddfa Gartref er mwyn cynnal gweithdai Prevent ar hyd a lled yr Ynys.

Yn ystod yr Wythnos Ddiogel ym mis Tachwedd:

- Fe wnaeth 220 o bobl fynychu'r gweithdai Prevent
- Roedd y sesiynau'n agored i staff y cyngor a sefydliadau trydydd sector
- Cyflwynwyd y gweithdai yng Nghaergybi, Llangefni ac Amlwch. Gweithiodd y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol yn agos â Medrwn Môn er mwyn cyrraedd sefydliadau trydydd sector.
- Roedd yr adborth yn gadarnhaol, a dywedodd y rhai a gymerodd ran fod ganddynt fwy o hyder yn eu gallu i adnabod risgiau radicaleiddio ar-lein.

Mae'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol bellach yn paratoi ar gyfer Gwiriad Sicrhau Ansawdd Blynyddol Prevent y Swyddfa Gartref ym mis Ionawr. Bu rhai o aelodau'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol yn rhan o is-grŵp oedd yn gyfrifol am gwblhau archwiliad o gydymffurfiaeth y Cyngor â'r Ddyletswydd Prevent, fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at

y broses sicrhau ansawdd. Mae’r Swyddfa Gartref yn anelu i rannu’r canlyniad ym mis Mai 2026.

**6. Ymateb i’r adroddiad “Cyfiawnder trwy ein Dewrder”**

Ers cyhoeddi *Cyfiawnder trwy ein Dewrder*, mae’r Cyngor, a’r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn arbennig, wedi bod yn gweithio’n agos â Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru er mwyn dangos sut y gwnaethom ymateb i argymhellion yr Adolygiad Ymarfer Plant. Archwiliwyd y gwaith hwn yn fanwl mewn trafodaethau yn y Panel Sgriwtini Addysg ar 17 Rhagfyr 2025. Trwy’r broses honno, roeddem yn gallu darparu eglurhad pellach ynglŷn â’r mesurau cadarn sydd ar waith i reoli a monitro materion diogelu.

Ers cyhoeddi’r adroddiad, mae’r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau gweithio gyda chyrff llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cyngor y Gweithlu Addysg, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Gofal Cymdeithasol Cymru ac Undeb Rygbi Cymru. Rydym yn gweithio’n agos â’r sefydliadau hyn i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu, ar yr adeg briodol, pan godir pryderon am weithiwr cofrestredig. Mae hyn yn sicrhau fod cyrff rheoleiddio’n derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd camau amserol a chymesur, gan gryfhau trefniadau diogelu ymhellach o fewn y Cyngor.

**7. Caffael a Chomisiynu Diogel**

Ar hyn o bryd mae’r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol yn craffu ar brosesau caffael yn gysylltiedig â chludiant plant i’r ysgol ac yn ôl adref.

- Mae’r Swyddog Trwyddedu wedi mynychu cyfarfod o’r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol er mwyn esbonio’r broses ar gyfer derbyn trwydded tacsi.
- Mae’r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol yn adolygu p’un a yw hyfforddiant diogelu cyfredol a gynigir i gwmnïau tacsi yn ddigonol a ph’un a yw polisïau presennol yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu
- Mae’r camau nesaf yn cynnwys archwilio sut y caiff contractau tacsis eu comisiynu gan y gwasanaethau Addysg a Phriffyrdd.
- Y nod yw sicrhau fod yr holl gontractau tacsis yn cynnwys trefniadau diogelu cadarn.

Mae’r gwaith hwn yn rhan o ffocws ehangach ar gryfhau comisiynu diogel o fewn y Cyngor.

**8. Adolygiadau Diogelu**

Nid oedd rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn gyfeirio unrhyw achosion at Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae disgwyl i Adolygiad Lladdiad Domestig yn ymwneud â phreswylydd o Ynys Môn gael ei gyhoeddi eleni. Bydd y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol yn adolygu'r argymhellion, gan sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n briodol o fewn y gwasanaethau perthnasol.

**9. Datblygu'r Gweithlu**

Mae mesurau diogelu ar gyfer y gweithlu'n parhau i gael eu cryfhau:

- Mae gwiriadau DBS yn parhau i fod ar waith ar gyfer swyddi perthnasol
- Mae gwiriadau cyn-cyflogi cadarn yn cael eu defnyddio'n gyson
- Mae Swyddog Hyfforddi Diogelu Corfforaethol penodedig yn goruchwylio'r ddarpariaeth hyfforddiant

Yn ogystal â'r uchod, mae Archwiliad Mewnol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar drefniadau diogelu yn gysylltiedig â recriwtio athrawon llanw.

Mae hyfforddiant mandadol ar gyfer pob aelod o staff yn cynnwys:

- Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Prevent
- Caethwasiaeth Fodern
- Diogelu (Grŵp A) **( modiwl mandadol ers diwedd Tachwedd 2025)**

| Service | VAWDASV | Prevent | Modern Slavery | Diogelu Grwp A |
|---|---|---|---|---|
| ADULTS | 100% | 100% | 100% | 37% |
| CHILDREN'S | 96% | 97% | 95% | 47% |
| CORPORATE TRANSFORMATION | 100% | 100% | 100% | 17% |
| COUNCIL BUSINESS | 100% | 100% | 100% | 36% |
| HIGHWAYS, WASTE AND PROPERTY | 79% | 85% | 85% | 31% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **HOUSING** | **89%** | **89%** | **89%** | **15%** |
| **LEARNING** | **94%** | **95%** | **93%** | **53%** |
| **PROVIDER UNIT** | **76%** | **84%** | **84%** | **41%** |
| **REGULATION AND ECONOMIC DEVELOPMENT** | **94%** | **94%** | **94%** | **32%** |
| **RESOURCES** | **99%** | **99%** | **100%** | **23%** |
| **SCHOOLS** | **61%** | **47%** | **55%** | **4%** |
| **SENIOR MANAGEMENT** | **100%** | **87.5%** | **100%** | **75%** |
| **Grand Total:** | **75.2%** | **70.4%** | **74.2%** | **16.4%** |

Mae'r ganran o staff ysgolion sydd wedi cyflawni hyfforddiant ar Learning Pool yn isel, ond mae sawl ffactor i'w hystyried yma sef:

- Problemau I gyda mynediad i Learning Pool, yn enwedig yn dilyn newid e-byst addysg a defnydd o e-byst Hwb.
- Rhai wedi gwneud hyfforddiant drwy ddulliau eraill, e.e., prynu system eu hunain i mewn er mwyn cadw cofnod o hyfforddiant diogelu mewn un lle.
- Mae'r ysgolion yn darparu manylion yr hyfforddiant yn eu hadroddiadau diogelu blynyddol a bydd y rhain i mewn erbyn diwedd mis Ionawr.
- Tra bo hyfforddiant Grŵp A yn fandadol ers mis Tachwedd gan y Cyngor, mae'r ysgolion wedi bod yn darparu'r hyfforddiant hwn ers mis Medi 2023 gyda recordiad ar gael fel bod staff / llywodraethwyr yn gallu ei wylio unrhyw amser. Felly rydym yn gwbl ffyddiog bod staff ein hysgolion mewn lle cryf o ran yr hyfforddiant hwn.

**10. Gorchymyn Diogelu Cam-drin Domestig**

Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref fod Gogledd Cymru wedi'i dewis fel ardal beilot ar gyfer y Gorchmynion Diogelu Cam-drin Domestig oedd newydd gael eu lansio.

O dan y ddeddfwriaeth hon, gall yr awdurdod lleol, a'r gwasanaeth Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn arbennig, wneud ceisiadau trydydd parti i amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig, hyd yn oed heb ofyn am eu caniatâd.

Y Cyngor yw un o'r cynghorau cyntaf o fewn ardaloedd y cynllun peilot yn y DU ac mae o wedi ymgeisio'n llwyddiannus yn barod am Orchymyn Diogelu Cam-drin Domestig ar ran defnyddiwr gwasanaeth. O ganlyniad i'r gorchymyn:

- Rhoddwyd tag electronig ar y tramgwyddwr
- Cafodd ei wahardd rhag cysylltu â'r dioddefwr
- Derbyniodd ddedfryd o dair blynedd yn y carchar yn sgil torri'r gwaharddiad

Bydd y Bwrdd Gweithredol Diogelu Corfforaethol yn parhau i archwilio sut y gall yr Awdurdod Lleol wneud cais am Orchmynion Diogelu Cam-drin Domestig er mwyn grymuso ac amddiffyn dioddefwyr.

**11. Y Camau Nesaf**

Mae'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys:

- Lansio Strategaeth bum mlynedd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ym mis Ebrill 2026
- Cryfhau gofynion diogelu ar gyfer contractwyr
- Parhau i wreiddio diogelu yn yr holl gyfarwyddiaethau
- Gwella cydweithio amlasiantaethol ac ymgysylltu cymunedol
- Cyhoeddi newyddlen diogelu chwarterol
- Datblygu a chyflwyno'r cynllun cyfathrebu diogelu newydd

Camau nesaf i Ysgolion

- Pryderon am y system Learning Pool am gael eu trafod yn y cyfarfod Busnes a Systemau Addysg nesaf.
- Aelod o'r tîm Adnoddau Dynol am fynychu'r digwyddiad llesiant ym mis Chwefror er mwyn helpu unrhyw unigolion nad oes ganddynt fynediad neu nad ydynt yn gallu mewngofnodi.
- Ysgolion eisoes wedi cychwyn cynnig hyfforddiant Grŵp B ar gyfer eu staff.

- Hyfforddiant Grŵp C yn cael ei gynnig yn rheolaidd ar gyfer personau dynodedig diogelu a chyrff llywodraethol ysgolion.

**12. Casgliad**

Mae’r gwaith a wnaethpwyd yn ystod y 12 mis diwethaf yn dangos fod cynnydd cryf wedi’i wneud o ran cryfhau trefniadau diogelu o fewn y Cyngor. Bydd y Bwrdd Gweithrdol Diogelu Corfforaethol yn parhau i yrru gwelliannau, sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a hyrwyddo diwylliant lle mae diogelu’n cael ei gydnabod fel cyfrifoldeb i bawb.  Mi fydd materion yn ymwneud hefo cofnodi hyfforddiant staff o fewn ysgolion yn cael eu uchafu i’r Bwrdd Diogelu Corfforaethol mis Chwefror.

This page is intentionally left blank

# Diogelu Corfforaethol: Mae'n Gyfrifoldeb i Bawb



*Mae diogelu yn bwysig ac yn ddyletswydd a chyfrifoldeb i bob un ohonom fel staff Cyngor Sir Ynys Môn. Beth bynnag eich gwaith, tîm, neu gwasanaeth, mae gan bob aelod o staff rôl bwysig er mwyn cadw plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn ddiogel rhag niwed.*

## Beth yw Diogelu Corfforaethol?

*Mae diogelu corfforaethol yn golygu bod y Cyngor yn defnyddio dull system gyfan er mwyn diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod, cam-drin domestig a radicaleiddio. Mae'n golygu ymgorffori diogelu ym mhopeth yr ydym yn ei wneud – o bolisi a chomisiynu i ddarparu gwasanaethau ac ymgysylltu cymunedol.*

## Hyfforddiant Mandadol – ‘Diogelu Grŵp A’




---


*Fel rhan o’n cyfrifoldebau diogelu statudol,* ***mae’n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau’r*** *hyfforddiant ‘Diogelu Grŵp A’ ar y Gronfa Ddysgu yn ystod yr* ***Wythnos Ddiogelu (10-14 Tachwedd 2025).***

*Ni fydd y cwrs yn cymryd mwy nag 20 munud i’w gwblhau ac mae bellach yn* ***orfodol i holl weithwyr y Cyngor.***

***Cliciwch yma i agor y modiwl.***

---

## Modiwlau Diogelu Mandadol Eraill




[Cliciwch yma i gael mynediad i Fodiwlau Diogelu]

---

*Mae'r modiwlau hyn ar gael ar y Gronfa Ddysgu a gallwch gwblhau yn eich amser eich hun. Maent yn hanfodol er mwyn ein cynorthwyo i adnabod ac ymateb yn briodol i bryderon diogelu mewn perthynas ag ystod eang o faterion sy'n effeithio ein cymunedau.*

*Beth am ddefnyddio'r Wythnos Ddiogelu fel cyfle i ddiweddaru eich gwybodaeth ac ail-gadarnhau ein cyd-ymrwymiad i gadw pobl yn ddiogel.*

---

## Cyfarfod y Bwrdd Gweithrediadau Diogelu Corfforaethol




*1 - **Rhai o aelodau'r bwrdd.***

---

***Mae'r Bwrdd Gweithrediadau Diogelu Corfforaethol yn grŵp o staff traws-adrannol sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn gyrru agenda diogelu'r Cyngor. Maent yn cefnogi datblygiad polisi, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o fewn pob gwasanaeth.***

***Byddent i'w weld yn ystod yr Wythnos Ddiogelu – ac maent wastad yn chwilio am aelodau newydd! Os ydych yn angerddol ynghylch diogelu a'ch bod yn dymuno cyfrannu, byddent yn falch o glywed gennych.***

***Aelodau Presennol:***

---


---

- *Gerallt Roberts, Cadeirydd (Addysg)*
- *Daron Owens, Is-Gadeirydd (Partneriaeth Diogelwch Cymunedol)*

- *Sian Peacock (Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- *Nerys Evans (Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- *Julie Jones (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)*
- *Rachel Williams (Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- *Llinos W William (Tai)*
- *Llinos M Roberts (Adnoddau)*
- *Arwel Jones (Tai)*
- *Nonn G Hughes (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)*
- *Non M Hughes (Trawsnewid/AD)*
- *Teressa Backhouse (Trawsnewid/Hyfforddiant)*
- *Eirian Lewis (Llyfrgelloedd)*

---

## Dewch i ddweud helo!



***Bydd gennym stondin dros dro yn y brif dderbynfa ym Mhrif Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, bob amser cinio (12-2yp) trwy gydol yr Wythnos Ddiogelu. Galwch heibio er mwyn:***

- *Gofyn cwestiynau am ddiogelu*
- *Derbyn cymorth i gael mynediad at y Gronfa Ddysgu*
- *Derbyn adnoddau a chanllawiau*
- *Cyfarfod aelodau'r Bwrdd Gweithrediadau Diogelu Corfforaethol*

*Beth am barhau i wneud diogelu'n rhan o'n diwylliant o ddydd i ddydd – gan fod **diogelu'n gyfrifoldeb i bawb**.*

***Dylid anfon unrhyw atgyfeiriadau/ymholiadau at TeuluMon@ynysmon.llyw.cymru***

# Diogelu Corfforaethol: Mae’n Gyfrifoldeb i Bawb



***Mae diogelu yn bwysig ac yn ddyletswydd a chyfrifoldeb i bob un ohonom fel staff Cyngor Sir Ynys Môn. Beth bynnag eich gwaith, tîm, neu gwasanaeth, mae gan bob aelod o staff rôl bwysig er mwyn cadw plant, pobl ifanc ac oedolion sy’n wynebu risg yn ddiogel rhag niwed.***

## Beth yw Diogelu Corfforaethol?

***Mae diogelu corfforaethol yn golygu bod y Cyngor yn defnyddio dull system gyfan er mwyn diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy’n wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod, cam-drin domestig a radicaleiddio. Mae’n golygu ymgorffori diogelu ym mhopeth yr ydym yn ei wneud – o bolisi a chomisiynu i ddarparu gwasanaethau ac ymgysylltu cymunedol.***

## Hyfforddiant Mandadol – 'Diogelu Grŵp A'




---


*Fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu statudol, **mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau'r** hyfforddiant 'Diogelu Grŵp A' ar y Gronfa Ddysgu yn ystod yr **Wythnos Ddiogelu (10-14 Tachwedd 2025).***

*Ni fydd y cwrs yn cymryd mwy nag 20 munud i'w gwblhau ac mae bellach yn **orfodol i holl weithwyr y Cyngor.***

***Cliciwch yma i agor y modiwl.***

---

## Modiwlau Diogelu Mandadol Eraill




[Cliciwch yma i gael mynediad i Fodiwlau Diogelu]

---

*Mae'r modiwlau hyn ar gael ar y Gronfa Ddysgu a gallwch gwblhau yn eich amser eich hun. Maent yn hanfodol er mwyn ein cynorthwyo i adnabod ac ymateb yn briodol i bryderon diogelu mewn perthynas ag ystod eang o faterion sy'n effeithio ein cymunedau.*

*Beth am ddefnyddio'r Wythnos Ddiogelu fel cyfle i ddiweddaru eich gwybodaeth ac ail-gadarnhau ein cyd-ymrwymiad i gadw pobl yn ddiogel.*

---

## Cyfarfod y Bwrdd Gweithrediadau Diogelu Corfforaethol




*1 - **Rhai o aelodau'r bwrdd.***

---

***Mae'r Bwrdd Gweithrediadau Diogelu Corfforaethol yn grŵp o staff traws-adrannol sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn gyrru agenda diogelu'r Cyngor. Maent yn cefnogi datblygiad polisi, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o fewn pob gwasanaeth.***

***Byddent i'w weld yn ystod yr Wythnos Ddiogelu – ac maent wastad yn chwilio am aelodau newydd! Os ydych yn angerddol ynghylch diogelu a'ch bod yn dymuno cyfrannu, byddent yn falch o glywed gennych.***

***Aelodau Presennol:***

---


---

- *Gerallt Roberts, Cadeirydd (Addysg)*
- *Daron Owens, Is-Gadeirydd (Partneriaeth Diogelwch Cymunedol)*

- *Sian Peacock (Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- *Nerys Evans (Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- *Julie Jones (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)*
- *Rachel Williams (Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- *Llinos W William (Tai)*
- *Llinos M Roberts (Adnoddau)*
- *Arwel Jones (Tai)*
- *Nonn G Hughes (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)*
- *Non M Hughes (Trawsnewid/AD)*
- *Teressa Backhouse (Trawsnewid/Hyfforddiant)*
- *Eirian Lewis (Llyfrgelloedd)*

---

## Dewch i ddweud helo!



***Bydd gennym stondin dros dro yn y brif dderbynfa ym Mhrif Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, bob amser cinio (12-2yp) trwy gydol yr Wythnos Ddiogelu. Galwch heibio er mwyn:***

- *Gofyn cwestiynau am ddiogelu*
- *Derbyn cymorth i gael mynediad at y Gronfa Ddysgu*
- *Derbyn adnoddau a chanllawiau*
- *Cyfarfod aelodau'r Bwrdd Gweithrediadau Diogelu Corfforaethol*

*Beth am barhau i wneud diogelu'n rhan o'n diwylliant o ddydd i ddydd – gan fod* ***diogelu'n gyfrifoldeb i bawb****.*

***Dylid anfon unrhyw atgyfeiriadau/ymholiadau at TeuluMon@ynysmon.llyw.cymru***

SOUK

# Eithafiaeth, y Cyfryngau a Prevent

(Cymru, Pros)

# Shout Out UK






Mae Shout Out UK (SOUK) yn **llwyfan addysg** ac yn **fenter gymdeithasol** arobryn. Mae cyfuno addysg a thechnoleg â chynhyrchu ffilmiau ac animeiddio yn sicrhau ein bod yn creu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar **Lythrennedd y Cyfryngau a Gwleidyddiaeth** yn ogystal ag ymgyrchoedd **Ymgysylltiad Democrataidd** effaith uchel.

# Trosolwg o'r Sesiwn:



**Rhan 1: Deall Eithafiaeth**

- Cyflwyniad i eithafiaeth
- Mathau cyffredin a rhai sy'n dod i'r amlwg o eithafiaeth yn Ynys Môn

**Rhan 2: Radicaleiddio**

- Deall radicaleiddio
- Pobl ifanc a bod yn agored i niwed o ran eithafiaeth

**Rhan 3: Y Cyfryngau ac Eithafiaeth**

- Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg
- Algorithmau a gwybodaeth ffug

**Rhan 4: Diogelu Pobl Ifanc**

- Sgiliau cyfryngau digidol trechol
- Atal a chefnogi

# Rhan 1: Deall Eithafiaeth

# Beth yw eithafiaeth?

Hyrwyddo neu ddatblygu ideoleg sy'n seiliedig ar drais, casineb neu anoddefgarwch yw eithafiaeth, sy'n anelu at:

1. Gwrthod neu ddinistrio hawliau a rhyddid sylfaenol eraill; neu
2. Tanseilio, dymchwel neu ddisodli system y DU o ddemocratiaeth seneddol ryddfrydol a hawliau democrataidd; neu
3. Creu amgylchedd goddefol yn fwriadol i eraill gyflawni'r canlyniadau yn (1) neu (2).

(Gov.uk, 2024)





***Gall unrhyw ideoleg ddod yn eithafol***

SOUK

# Sylw ar: Eithafiaeth a thermau cysylltiedig

**Eithafiaeth** → Meddu ar syniad neu gred eithafol

**Radicaleiddio** → Y broses o dderbyn syniadau eithafol

**Terfysgaeth** → Gweithredoedd treisgar i hyrwyddo'r syniad neu'r gred

Tudalen 54

**Yr amrywiaeth o 'Ideolegau Eithafol'**

Eithafiaeth grefyddol neu hiliol arall




Diwylliant 'incel' ac eithafiaeth casineb at fenywod

Eithafiaeth gynllwyniol




Eithafiaeth anarchistaidd



Eithafiaeth Islamaidd

Eithafiaeth hinsawdd



Asgell dde eithafol



SOUK

# Cynnydd yr asgell dde eithafol

**Adnabod yr asgell dde eithafol:**

- Cenedlaetholdeb eithafol
- Gwladgarwch amddiffynnol
- Stereoteipiau hiliol
- Hiliaeth Amlwg
- Goruchafiaeth gwyn

**Enghreifftiau o'r DU:**

- Active Club (Bannau Brycheiniog)
- The Base (sylfeini goruchafiaeth gwyn)








# Far-right group using sports to 'build militia'




Active Club's members have regular 'training meets' at locations across the UK




Here their members take a training meeting to Pen y Fan and Corn Du in the Brecon Beacons




Luca Benincasa was sentenced to nine years and three months for terror offences and possessing indecent images of children

**The self-styled "UK cell leader" of a banned neo-Nazi group has been locked up for terror offences and possessing indecent images of children.**

Luca Benincasa, 20, from Cardiff, was sentenced to nine years and three



| | | | |
|---|---|---|---|
| Swastika | Triskele / 777 | Deaths Head | Schutzstaffel / SS Runes |
| Sun Wheel and Celtic Cross | *Odin's Rune / Othala Rune | Iron Eagle & Celtic Cross | Hammerskin |
| Aryan Nations Sword & Wolf's Hook | White Power | Elhaz Rune* - Tree of Life[1] | Stormfront Logo |
| Seig Heil over Celtic Cross | British Union of Fascists | Iron Cross with Swastika | Nazi SA Symbol |
| Crucified Skinhead | *Valknot- 'Slain Warriors' (Norse) | Hungarian Arrow & Cross | KKK Capirote (Hood) |
| *Thor's Hammer | Blood Drop (KKK) | Black Sun - Schwarze Sonne | Wolf's Hook Rune |

# Manosphere a'r diwylliant Incel

**Manosphere:** Rhwydwaith o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol a chrewyr cynnwys sy'n canolbwyntio ar ddyhead gwrywaidd hynod stereoteipig.

Mae **incel** yn golygu person anweddog anwirfoddol ('involuntary celibate').




**Beth mae incels yn ei gredu?**


- Dylai dynion gael mynediad at bartner benywaidd trwy hawl
- Bod 80% o fenywod yn chwilio am yr "20%" gorau o ddynion yn unig - gan roi'r gweddill dan anfantais

(Newyddion NBC, 2014) (Newyddion CBC, 2014)








"The Virgin Walk"
Hair seems to overreact to wind
Head craned forward
Sometimes uses heaphones to escape potential conversation or mitigate agoraphobic symptoms
Looks below parallel
Avoids eye contact, and looks away immediately if accidental contact
Back slouched
Too polite, gives too much space for oncoming traffic
Stiff, straight arms
Little arm movement
Struggles to find comfortable hand form
Might be too tense and rigid
Walking pace/form lacks fluidity because he struggles to "autowalk" – analogous to always manually breathing
Bonus:
Clothing is all neutral coloured
Wears running shoes
Only wears black coats
Stands with a weird posture
Is insecure about how he walks
Walks too fast
Compulsively needs to pass anyone walking slightly slower than him
Long strides
THE CHAD STRIDE
Hair has been firmly fastened to never react to wind or any laws of physiques
Has figured out how to always look everyone in the eye at once at all times
Head is at a perfect verticle angle at all times
Does not register the emotions or feelings of others at all
Has never heard a song in his entire life
Arms constantly flailing in confident, unpredictable ways
Intentionally slaps and batters incoming traffic to make his own path
OUCH!
Hands always prepared to grab nearby fertile pussy
Back is so straight you could measure structural foundation with his spinal cord
Walking form is poised like a Greek statue, perpetually in contrapposto
Rapidly tiptoes around like in "going to the store"
MANDATORY:
Wears visually-painful bright neon attire
$3000 highlighter boots from Giuseepe Zanotti
Does not wear a coat, is immune to cold
Does not read stupid shit drawn by Quentin
Does not feel the need to pass anyone because he's already brutalized everyone nearby into submission
Tiny beetle-like stride

Tudalen 61


The Becky
The Stacy



Bluepill
Blackpill
Redpill

# Y Pump Rheol o'r Diwylliant Incel:

1. Rhaid eich bod yn ddyn
2. Rhaid eich bod yn wyryf
3. Rhaid eich bod wedi dioddef trawma
4. Rhaid eich bod wedi cymryd y 'black pill'

**Blackpilling: Y gred nad oes ffordd allan o'r broblem, felly rydych chi naill ai:**

1. Derbyniwch eich tynged fel Incel
2. Ceisiwch newid cymdeithas er eu budd, a argymhellir fel arfer fel rhywbeth y gellir ei gyflawni drwy drais torfol.



# Ffwndamentaliaeth grefyddol

**Ffwndamentaliaeth**:

1. Dehongliad llythrennol o'r ysgrythurau.
2. Defnyddio trais neu barodrwydd i'w ddefnyddio
3. Gorfodi credoau crefyddol a dewisiadau ffordd o fyw ar eraill

Tudalen 63

***Pwysig: Nid yw'r rhan fwyaf o grefyddau yn eithafol o ran natur, ond mae gan lawer leiafrif milwriaethus***









(The Defense Post, 2019)

# Jailed Wrexham bin man 'wanted to bomb military bases'

19 May 2017





Aabid Ali was arrested in a raid at his home last November



SOUK

# Rhan 2: Y Ffordd i Radicaleiddio

# Sut mae 'eithafiaeth' yn digwydd?




Moghaddam, Fathali M. (2005): "The staircase to terrorism. A psychological explanation". In American Psychologist.

# Llwybrau Radicaleiddio

## Hunan-Gychwynnol

- Yn dechrau allan o chwilfrydedd neu chwilio am ddilysrwydd o feddyliau penodol
- Chwilio a chymryd camwybodaeth yn fwriadol a'u derbyn
- Ymuno â fforymau ar-lein
- Creu neu rannu cynnwys sy'n adlewyrchu eu hideoleg

Tudalen 67

## Dylanwad cyfoedion

- Targedu unigolion neu grwpiau sy'n agored i niwed
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau gemau i gyflwyno ideolegau newydd
- Cynnig cymuned neu rwydwaith cymorth
- Hyrwyddo meddylfryd 'ni yn erbyn nhw'
- Cynnig gwobrau sy'n adlewyrchu cwynion

**Key Takeaway:**
***Communication and information is essential in radicalisation***

# Beth sy'n gwneud rhywun yn agored i eithafiaeth?

Tudalen 68

Ynysigrwydd neu unigrwydd

Achwyniadau personol

Diffyg perthyn neu b

drawsnewid neu ddryswch

Cyflyrau niwrolegol neu bry
meddwl

Dylanwadau amgylcheddol ac amlygiad

**Gwers Allweddol:**

**Meddyliwch am arwyddion a symptomau diogelu eraill!**

# Caledi deunyddol ac ansicrwydd

Caledi a thlodi yn achosi tensiynau cymdeithasol ac yn cynyddu’r angen am hunan-gadwraeth.

Mae meddylfryd bygythiol yn creu ymatebolrwydd yn erbyn newid.

Mae’n creu rhaniadau ac yn cau cymuned rhag y rhai a ystyrir yn ‘ddiarth’.

Chwilio am fudiad bai (scapegoating): dod o hyd i ffynhonnell bai am frwydrau gwirioneddol.

"In Wales alone there have been four separate incidents affecting social cohesion in the last three years."

It references protests in Llantwit Major about housing Ukrainian refugees, the protests and wider situation at the Stradey Park Hotel in Llanelli in spring and summer 2023, the August 2024 riots, and the social media attacks on their charity in December 2023 and January 2025.

North Wales Live

## Axing Welsh school will see 'immigrants buying houses and making the village a foreign place'

A Gwynedd councillor fears the axing of a village primary school will lead to an exodus of Welsh-speaking families as council admits it could lead to job losses




Llanllyfni councillor Peter Thomas fears the closure of a school could lead to 'immigrants making the village a foreign place'

North Wales Live

# Plant dan oed ar eu pennau'u hunain

Ffoaduriaid ifanc a all fod:

- Yn agored i niwed o ran radicaliaeth
- Yn agored i weithredoedd treisgar gan yr asgell dde eithafol

## Parsons Green attack: Iraqi teenager convicted over Tube bomb

16 March 2018

Share Save





Ahmed Hassan, 18, was found guilty on "overwhelming evidence", the judge said

## Reading stabbings: Man motivated by 'religious jihad'

5 January 2021

Share Save




Khairi Saadallah admitted three counts of murder and three counts of attempted murder


**A man who stabbed three people to death in a Reading park believed he was carrying out "an act of religious jihad", a court has heard.**

# Bod yn wahanol abl

Bombs strapped to Down's syndrome women kill scores in Baghdad markets

- Deadliest day in Iraq since start of US surge a year ago
- Mobile phones used to set off devices, say military

Tudalen 71



**Ffactorau Risg**

- Recriwtwyr neu 'radicalwyr' yn manteisio ar gyflwr person er eu lles eu hunain
- Posibilrwydd o fethu â nodi'r risg y maent ynddi, er mwyn cyfleu hyn i rywun arall neu dynnu eu hunain allan o'r sefyllfa

# Yn 2022, pa ganran o'r arestiadau am droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth oedd o dan 18 oed?

Tudalen 72

a) 4%

b) 20%

c) 11%

Yn 2019, roedd yn 4%.



(BBC, 2023)

# Tirwedd ar-lein sy’n esblygu



- Dywedodd bron i dri o bob pump (59%) o fechgyn iau eu bod wedi teimlo eu bod wedi cael eu bwlio neu eu gwneud i deimlo'n anghyfforddus ar-lein.
- **Mae un o bob pump o'r holl 232 o arestiadau terfysgaeth y llynedd yn blant dan 17 oed.**

(https://www.thorn.org/blog/2024-youth-perspectives/)

(https://www.lbc.co.uk/article/terror-offences-crime-uk-latest-5HjdCnn_2/)



# Niwroamrywiaeth

**CREST, 2023:** “Dim cydberthynas hysbys rhwng graddau awtistiaeth a graddau bod yn agored i niwed na chryfder y cysylltiad [ag eithafiaeth]”



**Clare Allely, 2014:** “Er bod canran yr unigolion yr ystyrir bod ganddynt anhwylder niwroddatblygiadol yn uwch nag y byddai disgwyl yn y boblogaeth gyffredinol, nid yw hyn yn agos at fod mor uchel ag y nodir yn y cyfryngau."



**Yn gyffredinol - Nid oes unrhyw gysylltiad wedi'i brofi na'i wrthbrofi**

# Ffactorau Dryslyd

Diffyg dealltwriaeth ledled y gymdeithas

Cyffrogarwch a Chamwybodaeth



Stereoteipiau o ran nodweddion

Amrywiaeth o nodweddion cysylltiedig

Graddau anghyson o gefnogaeth fesul unigolyn â diagnosis o fewn eu hamgylchedd eu hunain

# Diddordeb a Chwilfrydedd: Ffactorau Risg

**Ystyriwch y risg:**

- A yw'r diddordeb yn gysylltiedig ag ideoleg o gwbl?
- Os felly, a yw gweithgareddau'r person yn adlewyrchu diddordeb mewn pwnc (megis hanes), neu a yw'r gweithgareddau'n arddangos dewis ideolegol?

**Ystyriwch ddiogelwch:**

- A allai buddiannau'r unigolyn fod mor bell oddi wrth ideoleg fel bod eu nodweddion yn eu cadw ar bellter diogel o fuddiannau niweidiol?

# Rhan 3: Y Cyfryngau a Eithafiaeth



SOUK

Tudalen 78

**Ble mae'r bobl ifanc rydych chi'n eu hadnabod yn dod o hyd i'w gwybodaeth?**



# Allwch chi enwi'r holl blatfformau cyfryngau cymdeithasol hyn?

# Sut mae algorithmau'n gweithio i wthio cynnwys ar eich ffrwd?

**Mae'r algorithmau'n cadw golwg ar y cynnwys:**

- pwy rydych chi'n ei ddilyn,
- pa dermau chwilio rydych chi'n eu defnyddio,
- pa fideos rydych chi'n eu gwylio tan y diwedd,
- pa fideos rydych chi'n eu hepgor,
- pa fideos rydych chi'n rhoi sylwadau arnyn nhw,
- a pha rai rydych chi'n eu rhannu.






**Mae 50% o Ffrwd Twitter/X yn gynnwys wedi'i guradu gan Algorithmau yn hytrach na chyfrifon rydych chi'n eu dilyn!**

# Cylchoedd Adlais a Tuedd Cadarnhau

**Cylch adlais** yw amgylchedd lle mae person yn dod ar draws gwybodaeth neu farn sy'n adlewyrchu ac yn atgyfnerthu ei farn ei hun yn unig.

**Tuedd cadarnhau** yw tuedd pobl i brosesu gwybodaeth trwy chwilio am, neu ddehongli, wybodaeth sy'n gyson â'u credoau presennol.




(Fforwm Economaidd y Byd, 2016)

# Camwybodaeth

Tudalen 82

Mae camwybodaeth yn **wybodaeth ffug neu anghywir** a allai gael ei rhannu drwy **gamgymeriad neu gamddealltwriaeth,** heb unrhyw fwriad i dwyllo.

Yn aml, gellir rhannu camwybodaeth oherwydd pryder neu ofn neu fel jôcs, fel memes.



Roedd llawer o bobl yn tybio mai terfysgaeth oedd Notre Dame yn 2019, pan oedd mewn gwirionedd yn ddamwain.

# Gwybodaeth gamarweiniol

Mae gwybodaeth gamarweiniol yn wybodaeth **ffug neu gamarweiniol** sy'n cael ei chreu a'i lledaenu'n fwriadol gyda'r **pwrpas o dwyllo, trin, neu gamarwain eraill**.

Mae gwybodaeth gamarweiniol yn fwriadol.





Roedd Martin Lewis yn ddioddefwr ymgyrch gwybodaeth gamarweiniol ffugddwfn



SOUK

# Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn technoleg ac eithafiaeth:

- **Gweithiau ffugddwfn:** Sain Dydd y Cofio Sadiq Khan
- **Masnachu digidol:** Gweithiau ffugddwfn gwleidyddol a phornograffi anghydsyniol
- **Sain, fideo a delweddaeth AI**
- **Sgwrsfotiau personol**
- **Eithafiaeth mewn gemau**
- **Tueddiadau Memes a Hiwmor**






# Camwybodaeth AI

- ‘Slopaganda’ - Postiadau, memes a delweddau a gynhyrchwyd gan AI wedi'u cynllunio i dreiddio i'r cof hirdymor.
- Wedi'u cynllunio i ‘ddenu sylw’
- Gwleidyddiaeth ymyrraeth ddomestig neu dramor
- Gellir ei weithredu ar raddfa fawr



[Cwis AI]






(24 Mar 2025; ‘Slopaganda: The interaction between propaganda and generative AI; Michał Klincewicz, Mark Alfano, Amir Ebrahimi Fard)

# Gwybodaeth Camarweiniol AI

Yn gyffredinol ailadroddus gyda chyfrifon ffug

ASTUDIAETH ACHOS:

Yn ystod yr etholiad diweddaraf (2025) yn y Weriniaeth Tsiec, cafodd 178k o gyfrifon eu dileu gan awdurdodau TikTok yn yr wythnosau cynt.


Deallusrwydd Artiffisial a Thrin a Ymyrraeth Gwybodaeth Dramor (FIMI).

Gall ganfod trwy ddefnyddio iaith, ailadrodd, arddull enw'r cyfrif!



# Gwybodaeth Camarweiniol AI

- AI a robotiaid yn llygru setiau data/hyfforddi o AI cynhyrchiol
- Postio erthyglau ac adroddiadau ffug.
- Yn gwneud LLMs (Large Language Modules) fel Chat GPT neu Gemini yn gamarweiniol neu'n rhagfarnllyd
- Tramor a domestig



# Telegram: Peryglon apiau negeseuon wedi'u hamgryptio

## Anglesey man sentenced to ten years on terror offences

23RD JUNE 2022 CRIME



Samuel Whibley, 29, of Derwen Deg, Menai Bridge, was found guilty of the encouragement of terrorism, and disseminating a terrorist publication. Pictured right: Counter Terrorism Policing North East handout photo of the kitchen at Hill. Images: PA

North Wales Chronicle

Young children are being arrested at a rate of nearly one a week for terrorism offences and plotting attacks on British soil, an LBC investigation has discovered




## Roedd un o bob pump o'r holl 232 o arestiadau terfysgaeth yn 2024 yn blant dan 17 oed.



https://www.lbc.co.uk/article/terror-offences-crime-uk-latest-5HjdCnn_2/

# Mae troseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn cynnwys:




- Dangos cefnogaeth i sefydliad gwaharddedig ar-lein (e.e.: ISIS/Al Qaeda)
- Rhannu lluniau/fideos o ymosodiadau neu ddeunydd sy'n ymwneud â'r sefydliadau hyn (hyd yn oed fel jôc/meme hiwmor tywyll)
- Cael neu gael mynediad at ddogfennau, canllawiau, cyfarwyddiadau, neu wybodaeth arall ar-lein (neu wedi'i lawrlwytho) a allai helpu rhywun
- Cynllunio neu gyflawni gweithred derfysgol.



# Rhan 4: Diogelu Pobl Ifanc

Tudalen 91

# Pwy sy'n chwarae rhan yn niogelwch pobl ifanc ar y rhyngrwyd?




(Ofcom 2022)

# Deddf Diogelwch Ar-lein 2023

Daeth codau ymarfer amddiffyn plant i rym ar 25 Gorffennaf 2025.

**Sut mae wedi newid pethau?**

- Mae'n ofynnol bellach i **gwmnïau Cyfryngau Cymdeithasol** weithredu mesurau i leihau'r risgiau y defnyddir eu gwasanaethau ar gyfer troseddu anghyfreithlon. Mae angen iddyn nhw hefyd roi systemau ar waith ar gyfer **dileu cynnwys anghyfreithlon** pan mae'n ymddangos.

(https://www.gov.uk/government/publications/online-safety-act-explainer/online-safety-act-explainer)





# Deddf Diogelwch Ar-lein 2023



- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol **i ddarparwyr i ystyried yn benodol sut y gallai algorithmau effeithio ar amlygiad defnyddwyr i gynnwys anghyfreithlon** – ac amlygiad plant i gynnwys sy’n niweidiol i blant – fel rhan o’u hasesiadau risg.

